

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 28 Mehefin 2019

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 4 GORFFENNAF 2019** am **10.00** am yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RUTHUN.**

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM
9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2019/20 (copi o ddisgrifiad rôl yr Aelod Craffu a'r Cadeirydd/ Is-Gadeirydd ynghlwm).

3 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019 (copi wedi'i atodi).

6 MABWYSIADU SIARTER GYDYMFFURFIO Â CHYNLLUNIO (Tudalennau 19 - 52)

Ystyried adroddiad oddi wrth y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn am farn yr aelodau ar Siarter Gydymffurfio â Chynllunio drafft yn amlinellu sut yr ymdriniwyd â honiadau o dorri rheolaeth gynllunio a sut y gallai cwynion a sefydliadau lleol fel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned gynorthwyo gyda sicrhau cydymffurfio â chynllunio.

10.10 a.m. – 10.40 a.m.

7 ADOLYGU A DIWEDDARIAD AR Y PROSIECT RHEOLEIDDIO CARAFANAU GWYLIAU (Tudalennau 53 - 62)

Ystyried adroddiad (**sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol**) oddi wrth y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn darparu diweddariad ar reoleiddio meysydd carafanau gwyliau yn y sir ac i asesu effeithiolrwydd ymagwedd y Cyngor tuag at sicrhau cydymffurfio ag amodau cynllunio a thrwyddedu.

10.40 a.m. – 11.20 a.m.

~~~~~ **EGWYL** ~~~~~

**8 ADRODDIAD DIWEDDARU AR REOLI GWYLANOD** (Tudalennau 63 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn diweddarau'r aelodau ar y cynnydd a wnaed ar y Cynllun Gweithredu Rheoli Gwylanod ynghyd â champau gweithredu pellach arfaethedig.

**11.30 a.m. – 12 hanner dydd**

**9 MEYSYDD PARCIO YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 83 - 110)

Ystyried adroddiad oddi wrth y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (copi ynghlwm) gan ddarparu diweddariad ynghylch gweithredu Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio a materion meysydd parcio eraill, a chael barn yr aelodau arnynt.

**12 hanner dydd – 12.30 p.m.**

**10 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 111 - 132)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi wedi'i atodi) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

**12.30 p.m. – 12.45 p.m.**

## **11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrdau a Grwpiau amrywiol y Cyngor

**12.45 p.m.**

### **AELODAETH**

#### **Y Cynghorwyr**

Huw Williams (Cadeirydd)

Mabon ap Gwynfor  
Brian Blakeley  
Rachel Flynn  
Tina Jones  
Merfyn Parry

Anton Sampson  
Glenn Swingler  
Andrew Thomas  
Graham Timms  
Cheryl Williams

#### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

- (vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**  
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

*Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd*

## 1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

## 2. PWRPAS Y RÔL

- **Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.**
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- **Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.**
- **Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.**
- **Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.**
- **Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.**
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

## 3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
  - Balchder
  - Hygrededd
  - Parch
  - Undod
  - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
  - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
  - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 9 Mai 2019 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas a/ac Graham Timms (Is-Gadeirydd)

Ar gais y Pwyllgor, roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc yn bresennol ar gyfer Eitem 5 a 6 ar y Rhaglen.

Ar gais y Pwyllgor, roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gyfer Eitem 7 ar y Rhaglen.

Aelodau Cyfetholedig – Kathleen Jones, David Lloyd a Neil Roberts

Roedd y Cynghorwyr Rhys Thomas ac Emrys Wynne yn bresennol fel arsylwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant (KIE), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (IL), Prif Reolwr – Moderneiddio Addysg (GD), Prif Gyfrifydd (SG), Rheolwr Cefnogi Busnes (PB), Swyddog Cefnogi Busnes (Contractau a Pherfformiad (RT), Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych (LP), Cydlynnydd Craffu (RhE) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (RTJ).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Merfyn Parry, Huw Williams, Tina Jones, Rachel Flynn a Cheryl Williams.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Graham Timms, Glenn Swingler, Meirick Lloyd Davies, Brian Blakeley, Anton Sampson a David Lloyd i gyd gysylltiad personol yn eitem 5 gan eu bod i gyd yn Llywodraethwyr Ysgolion.

#### 3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryn.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019.

### **Materion yn Codi -**

- Tudalen 8 – Eitem 5 – Polisi Dyledion Prydau Ysgol – roedd yr aelodau'n bryderus ei bod yn ymddangos y dosbarthwyd y Polisi Dyledion Prydau Ysgol diwygiedig i ysgolion cyn iddo gael ei ddsbarthu i gynghorwyr o dan y Broses Penderfyniadau Dirprwyedig. Roedd yr aelodau eisiau sicrwydd bod y newidiadau y gwnaethant eu hargymell wedi'u cynnwys yn y polisi terfynol. Dywedodd y Swyddogion y byddent yn holi a wnaed hyn ac a yw'r Penderfyniad Dirprwyedig perthnasol wedi'i gyhoeddi.
- Tudalen 11 – Eitem 6 – Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – roedd y ddau safle arfaethedig wedi mynd gerbron y Cabinet a derbyniwyd y safle preswyl parhaol ond nid y safle tramwy yn yr un lleoliad. Bydd lleoliad arall ar gyfer y safle tramwy'n cael ei chwilio amdano yn ystod datblygiad y CDLI newydd.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2019 fel cofnod cywir.

## **5 POLISI CLUDIANT I DDYSGWYR SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc adroddiad y Rheolwr Addysg ac Adnoddau a'r atodiadau (a ddsbarthwyd eisoes) a oedd yn rhoi manylion am yr elfennau anstatudol ym Mholisi Cludiant Dysgwyr Cyngor Sir Ddinbych 2018.

Yn ystod ei gyflwyniad eglurodd yr Aelod Arweiniol y daeth Polisi Cludiant Dysgwyr presennol y Cyngor i rym ym mis Medi 2018 yn dilyn ymarfer ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid y flwyddyn flaenorol. Mae'r polisi'n nodi sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Wrth adolygu'r polisi yn 2017 roedd sawl anghysonder wedi dod i'r amlwg e.e. llwybrau peryglus, ysgolion bwydo a phwysigrwydd eu perthynas â'r ysgolion uwchradd y maent wedi'u cysylltu â nhw ayyb. Cafodd yr anghysonderau hyn eu hunioni yn y polisi diwygiedig. Mae'r adolygiad hwn o'r polisi ynghyd â newidiadau perthnasol i gludiant ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a darparwyr cludiant yn trosglwyddo costau chwyddiannol i'r Cyngor Sir wedi arwain at gynnydd o oddeutu £350k yng nghost cludiant ysgolion yn y sir yn ystod 2018/19. Ni fydd cynnydd fel hyn yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol mai'r Gwasanaeth Prifffyrdd a'r Amgylchedd sy'n dal y gyllideb cludiant ysgol ond mai'r Gwasanaeth Addysg sy'n pennu cymhwysedd disgybl i dderbyn cludiant am ddim. Er bod hyn o bosibl yn ymddangos yn od, mae'n gweithio'n dda gan fod swyddogion Addysg yn gyfarwydd â'r darnau o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cymhwysedd dysgwyr am gludiant am ddim, ond mae'r arbenigedd o ran tendro am, a chaffael cludiant, a gwybodaeth am argaeledd cludiant cyhoeddus yn bodoli o fewn tîm cludiant y Gwasanaeth Prifffyrdd a'r Amgylchedd.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol wrth yr Aelodau bod darpariaeth cludiant ar gyfer dysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at elfennau addysg anstatudol yn fater cynhennus dros ben a bod sawl awdurdod lleol sydd wedi edrych ar y posibilrwydd o roi stop ar gludiant am ddim neu godi tâl am gludiant e.e. i ddarpariaeth addysg seiliedig ar ffydd neu'r iaith Gymraeg, wedi cael sylw anffafriol yn y wasg/cyfyngau, a hyd yn oed her gyfreithiol. Er ei bod yn bosib y byddai rhoi'r gorau i gynnis cludiant am ddim, neu godi tâl am gludiant er mwyn galluogi disgyblion i gael mynediad at addysg anstatudol, yn arwain at arbedion sylweddol i'r Cyngor, byddai'n bwysig dros ben asesu effaith unrhyw newidiadau ar addysg disgyblion y a'r gefnogaeth a roddir i'w galluogi i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt addysg ôl-16. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gwario tua £1m bob blwyddyn ar gludo myfyrwyr i ddarpariaeth addysg ôl-16.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau:

- bod ar yr Awdurdod ddyletswydd deddfwriaethol i gydymffurfio â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) ochr yn ochr â gofynion deddfwriaethol eraill perthnasol i ddarpariaeth addysg.
- bod unrhyw gynnis i roi'r gorau i gludiant am ddim i ddarpariaeth addysg anstatudol yn debygol iawn o ddenu sylw negyddol yn y cyfyngau Yr elfen leiaf cynhennus yn ôl pob tebyg fyddai cludiant i fyfyrwyr ôl-16. Fodd bynnag byddai risgiau ynghlwm â hyn hefyd, yn enwedig o ran cyfleoedd gyrfa disgyblion yn y dyfodol a'r economi ehangach.
- bod cludiant dysgwyr yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn costio cyfanswm o oddeutu £2.5m y flwyddyn Roedd costau'n amrywio o sir i sir, gyda'r ardaloedd daearyddol mwyaf yn gwario llawer mwy ar gludiant dysgwyr.
- bod hyn yn dangos y cymhlethdodau cysylltiedig â gwneud penderfyniadau am gludiant am ddim i ddysgwyr e.e. mae'n bosibl iawn y bydd rhai disgyblion yn gymwys o dan sawl gwahanol gategori e.e. Cyfrwng Gymraeg, ffydd, Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), ffyrdd peryglus ayyb ond y bydd eraill nad ydynt yn gymwys o dan unrhyw feini prawf.
- er bod £600k wedi'i ychwanegu at y gyllideb cludiant i ddysgwyr ddwy flynedd yn ôl er mwyn helpu i leddfu'r pwysau, nid oedd hynny'n ddigon gan fod gorwariant cyson ar y gyllideb. Mae hon yn broblem sy'n codi dro ar ôl tro.
- y bydd rhagor o newidiadau i deddfwriaeth AAA yn rhoi mwy o bwysau ar y gyllideb Cludiant Dysgwyr, ac y bydd prisiau tanwydd sy'n newid o hyd a chostau cynnal a chadw uwch – pethau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod, hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb. Yn ychwanegol mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi torri'r arian y mae'n ei roi i'r Cynghorau ar gyfer darpariaeth cludiant ysgolion; a
- mae perthynas waith dda'n bodoli rhwng staff y Gwasanaeth Addysg a staff Adran Cludiant y Cyngor. Er y gallai ymddangos yn anarferol bod y gyllideb cludiant i ddysgwyr yn cael ei gweinyddu a'i rheoli gan yr Adran Cludiant (o fewn Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd) mae rheswm dilys dros yr ymdriniaeth hon, sef mai o fewn y Gwasanaeth Cludiant y mae'r arbenigedd o ran rheoli a chydlynu cludiant o bob math. Swyddogion y Gwasanaeth Addysg sy'n pennu cymhwysedd disgyblion/myfyrwyr am gludiant am ddim

i'r ysgol ac unwaith y bydd hynny wedi'i wneud y Gwasanaeth Cludiant fydd yn comisiynu ac yn cydlynu cludiant ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r ymdriniaeth hon yn gweithio'n dda i bawb.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod y cymhlethdodau cysylltiedig â chludiant i ddysgwyr a deddfwriaeth berthnasol i addysg. Roeddent yn teimlo'n gryf y byddai'n fanteisiol, er mwyn hyrwyddo adolygiad trylwyr o elfennau anstatudol Polisi Cludiant i Ddysgwyr y Cyngor, sefydlu gweithgor o aelodau a swyddogion o'r gwasanaethau Addysg a Chludiant i edrych ar bob agwedd ar gludiant i ddarpariaeth addysg anstatudol. Byddai'r grŵp yn gallu ymchwilio i drefniadau awdurdodau lleol eraill ochr yn ochr â risgiau ac effeithiau posibl rhoi'r gorau i unrhyw elfen o gludiant am ddim i ddarpariaeth anstatudol yn y dyfodol. Roedd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion yn cytuno â'r ymdriniaeth hon ac yn teimlo y byddai'n rhoi mwy o eglurder ar gludiant i ddarpariaeth addysg statudol ac anstatudol gan helpu pawb i ddeall yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ddarparu a pham. Pwysleisiodd yr aelodau'r bod angen i'r Gweithgor ystyried natur wledig y sir a sicrhau na fydd unrhyw blentyn/fyfyriwr dan anfantais o ganlyniad i le maen nhw'n byw. Dylai'r Gweithgor hefyd edrych ar gostau cadw'r gwahanol elfennau o gludiant dysgwyr i ddarpariaeth addysg anstatudol yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd posib o ariannu'r gwasanaeth. Fel rhan o'i waith gallai'r grŵp benderfynu a yw'n dymuno edrych i mewn i sut y mae awdurdodau eraill wedi ymdrin â, ac wedi ariannu cludiant i ddysgwyr i ddarpariaeth addysg anstatudol a'u heffeithlonrwydd, dulliau posibl i'w defnyddio wrth gynnal ei adolygiad h.y. ymgynghoriadau, arolygon ayyb ac ymdriniaethau o ran annog myfyrwyr i fynd i addysg bellach ayyb.

Yn dilyn trafodaeth fanwl

**Penderfynwyd: - ar ôl ystyried yr adroddiad ac yng ngoleuni'r sylwadau uchod:**

- (a) **sefydlu Gweithgor o bum aelod o'r Pwyllgor ac un aelod addysg cyfetholedig, gyda chefnogaeth swyddogion o Wasanaeth Addysg ac Adran Cludiant y Cyngor, i edrych ar bolisi Cludiant Dysgwyr y Cyngor o safbwynt darparu cludiant i ddarpariaeth addysgol anstatudol. Bydd y Gweithgor yn canolbwyntio'n benodol ar:**
- (i) **Rhoi eglurder a gwell dealltwriaeth o gyllideb cludiant dysgwyr flynyddol y Cyngor a chostau cludo disgyblion/myfyrwyr i addysg statudol ac anstatudol, dewisol a heb fod yn ddewisol, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o ddeddfwriaeth cludiant addysg a dysgwyr a'u heffaith ar y gyllideb. Asesu effeithiau posibl rhoi'r gorau i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion/myfyrwyr sy'n mynychu'r elfennau anstatudol neu ddewisol amrywiol a gynigir ar hyn o bryd, gan gynnwys unrhyw risgiau i'r ddarpariaeth addysg ehangach yn yr ardal a'r sylfaen sgiliau sy'n angenrheidiol yn yr economi lleol.**
- (ii) **sicrhau y caiff pob disgybl/myfyriwr yn y sir fynediad teg a chyfartal i ddarpariaeth addysg ac na chânt eu gwahaniaethu yn eu herbyn mewn unrhyw ffordd.**
- (b) **ceisio mynegiannau o ddiddordeb gan Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar y gweithgor a rhannu ei gylch gorchwyl drafft gyda'r pwyllgor maes o law; a**

***(c) bod y gweithgor yn adrodd ynghylch ei gasgliadau a'i argymhellion i'r Pwyllgor ar ôl darfod y gwaith.***

## **6 EFFAITH CAU YSGOL RHEWL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc adroddiad y Prif Reolwr, Moderneiddio Addysg, (a ddsbarthwyd eisoes) yn amlinellu'r gefnogaeth a roddwyd i Ysgol Rhewl yn ystod y broses o gau'r ysgol. Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd atodiadau'n crynhoi ymatebion rhieni i'r holiaduron a roddwyd iddynt, sylwadau a gafwyd gan yr ysgolion a fydd yn cymryd disgyblion Ysgol Rhewl yn ogystal â sylwadau'r Pennaeth dros dro ar adeg cau'r ysgol. Dywedodd yr Aelod Arweiniol mai dim ond dau riant oedd wedi ateb yr holiadur ac o'r saith ysgol a dderbyniodd ddisgyblion ysgol Rhewl, pump oedd wedi ymateb. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd hefyd yn gwrth-ddweud ei gilydd.

Disgwyliwyd i ddechrau y byddai mwyafrif y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgolion newydd yn Rhuthun ond ni ddigwyddodd hynny. Roedd nifer o'r plant wedi trosglwyddo i ysgolion mewn rhannau eraill o'r sir, rhai oherwydd eu bod yn byw'n agosach at yr ysgolion hynny ac eraill oherwydd dewis y rhieni. Cydnabu'r Aelod Arweiniol nad yw byth yn brofiad braf cau ysgol ond roedd yn falch o allu dweud fod y disgyblion wedi setlo'n dda yn eu hysgolion newydd. Dywedodd y Prif Reolwr Moderneiddio Addysg wrth yr Aelodau bod swyddogion o Wasanaeth Addysg y Cyngor wedi gweithio'n agos â Phennaeth Dros dro Ysgol Rhewl drwy gydol y broses o gau'r ysgol a throsglwyddo'r disgyblion. Dywedodd hefyd bod y Pennaeth Dros dro wedi gweithio'n ddiwyd gyda disgyblion a rhieni dan amgylchiadau anodd dros ben. Yn ogystal â rhoi cefnogaeth i rieni (mewn cyfarfodydd un i un a chyfarfodydd grŵp), disgyblion a'r corff llywodraethu roedd y Cyngor hefyd wedi darparu cefnogaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy Gyrrfa Cymru, i staff yr ysgol - ffaith a nodwyd yn sylwadau'r Pennaeth Dros dro. Gofynnodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant am i'r ffaith gael ei nodi, er bod y Cyngor yn ymgymryd â phroses siomedig ac amhleserus iddyn nhw'n bersonol, bod cymuned Ysgol Rhewl wedi ymddwyn yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn barchus tuag at swyddogion y Gwasanaeth Addysg.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- gydnabod bod cymunedau'n gwerthfawrogi eu hadeiladau ysgol gan ddweud bod y Cyngor yn cynnig yr opsiwn i'r gymuned leol brynu adeiladau ysgol diddefnydd. Mewn man lle nad oes cyfleusterau cymunedol yn bodoli gallai fod yn gyfle da i'r gymuned brynu'r amwynder. Fodd bynnag mae Pafiliwn Chwaraeon gyda'r holl offer angenrheidiol eisoes yn bodoli yn Rhewl felly nid oedd gan y gymuned unrhyw ddiddordeb mewn prynu adeiladau'r hen ysgol a oedd eisoes mewn cyflwr eithaf gwael.
- nodi fod y swyddogion wedi gwneud eu gorau i ymgysylltu â rhieni, disgyblion a'r gymuned ysgol a'u cefnogi drwy'r broses, ond y byddai bob amser wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol.
- nodi ei bod yn bwysig bod cefnogaeth ac yn y blaen ar gael pan oedd rhieni a rhanddeiliaid yn barod i ymgysylltu. Oherwydd sensitifrwydd cynigion i gau ysgolion nid yw pawb a effeithir bob amser yn barod i ymgysylltu neu geisio cefnogaeth ar yr un pryd. Bydd adeiladu hyblygrwydd i mewn i'r broses felly yn hollbwysig.

- cadarnhau fod rhai disgyblion/rhieni wedi newid eu meddwl am ba ysgol i drosglwyddo eu plentyn/plant iddi ar ôl dyddiau blasu mewn gwahanol ysgolion.
- cynghori bod cefnogaeth hefyd wedi'i rhoi gan y Gwasanaeth Addysg i'r ysgolion hynny a oedd yn derbyn disgyblion o Ysgol Rhewl.
- cadarnhau bod penderfyniad i beidio symud y disgyblion oedd wedi dewis symud i Ysgol Stryd Rhos i'r ysgol newydd pan fyddai'n agor ond yn hytrach aros tan y flwyddyn academaidd newydd wedi'i wneud ar ôl trafod ac ymgynghori gyda'r Pennaeth Dros dro. Teimlwyd y byddai hyn yn gweithio'n well gan y byddai'n osgoi'r angen i ddisgyblion Blwyddyn 6 symud am ddim ond un tymor cyn gorfod symud eto i'r ysgol uwchradd yn nhymor yr hydref.
- nodi nad oes arwydd bod newid ysgol wedi cael effaith niweidiol ar gyrhaeddiad disgyblion. Roedd dwy o'r ysgolion a dderbynion ddisgyblion o Ysgol Rhewl wedi cael eu harolygu gan Estyn yn ddiweddar ac wedi cael adroddiadau da dros ben. Mae disgwyl y bydd adroddiad ar effaith yr adolygiad o ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Rhuthun gyfan yn mynd gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2019. Bydd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o unrhyw effaith ar gyrhaeddiad disgyblion.
- cadarnhad bod y Pennaeth Dros dro wedi mynd yn ôl i swydd yn ei hysgol flaenorol, roedd rhai staff wedi cymryd pecynnau diswyddo ac eraill wedi dod o hyd i waith arall. Cytunodd y Prif Reolwr, Moderneiddio Addysg y byddai'n dosbarthu gwybodaeth fanylach am hyn ac ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Wasanaethau Ieuenctid y Cyngor, a
- rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Rhewl yn bentref â chysylltiadau cymunedol cryf gyda nifer o weithgareddau cymunedol sefydledig yn cael eu cynnal yno'n rheolaidd.

Ar ddiwedd y drafodaeth

**Penderfynwyd: - Yn amodol ar y sylwadau uchod, cydnabod yr adborth a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd a bod y Gwasanaeth Addysg yn eu defnyddio wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.**

**Ar y pwynt hwn (11.45 am) cafwyd egwyl o 10 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.55 a.m.**

## **7 CREDYD CYNHWYSOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad y Rheolwr Prosiect Contractau a Pherfformiad - Cyllid (a ddosbarthwyd eisoes) yn crynhoi effaith hyd yma symud drosodd i Gredyd Cynhwysol (CC) ar drigolion y Sir ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru, gan amlinellu'r cynlluniau a sefydlwyd i liniaru'r effeithiau ar wasanaethau a thrigolion wrth i'r rhai sy'n derbyn budd-dal gal eu symud drosodd i CC. Croesawyd Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i'r cyfarfod fel un o bartneriaid allweddol y Cyngor ar gyfer rhoi cefnogaeth gyda Chredyd Cynhwysol. Eglurodd fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gais yr aelodau ar ôl ystyried adroddiad y llynedd am y paratodau yr oedd y Cyngor a'i bartneriaid yn eu gwneud yn barod ar gyfer lledaeniad cychwynol CC i'r rhan fwyaf o'r sir.

Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd yr Aelod Arweiniol bod y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi y dylai 'ymfudo rheoledig' pobl sydd eisoes yn derbyn budd-daliadau drosodd i Gredyd Cynhwysol ddechrau yn Sir Dinbych ddiwedd 2020. Nododd aelodaeth y Bwrdd Credyd Cynhwysol amlasiantaeth yr oedd y Cyngor wedi'i sefydlu mewn ymgais i liniaru'r risgiau i'r Cyngor a phreswylwyr wrth gyflwyno CC. Mae ymdriniaeth Sir Ddinbych o ran sefydlu tîm amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn wahanol i ymdriniaeth awdurdodau lleol eraill, sydd mae'n debyg wedi sefydlu Byrddau Cyllid neu Fyrddau Refeniw a Budd-Dal. Ers i Gredyd Cynhwysol ddod i rym yn Sir Ddinbych mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno sy'n berthnasol i fudd-dal tai a phrydau ysgol am ddim ayyb. Mae hyn wedi creu gwaith ychwanegol ar gyfer staff sy'n delio â'r meysydd hynny a gyda hawliadau CC. Roedd penderfyniad y Cyngor a'i bartneriaid i gydleoli staff yng Nghanolfan Waith y Rhyl wedi profi'n ddefnyddiol dros ben wrth fynd i'r afael â'r newidiadau, tynnu sylw hawlwy'r budd-dal at hawliau eraill posibl a darparu gwasanaethau ymyrraeth mewn modd amserol er mwyn rhwystro sefyllfaoedd o argyfwng. Roedd Atodiad 2 i'r adroddiad yn rhoi manylion camau penodol a gymerwyd gan wasanaethau unigol a'r canlyniadau a gafwyd ac roedd Atodiad 3 yn nodi astudiaethau achos dienw er mwyn dangos effeithiolrwydd ymdriniaeth y Cyngor a'i bartneriaid.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, Prif Weithredol CAB Sir Ddinbych, y Rheolwr Contractau a Pherfformiad – Cyllid a'r Rheolwr Prosiect Contractau a Pherfformiad - Cyllid:

- hyd at 31 Mawrth 2019 bod CC wedi bod yn 'fudd-dal pasbort' ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim. O 1 Ebrill 2019 mae terfyn incwm o £7,400 wedi'i gyflwyno ar gyfer PYDd. Fodd bynnag roedd unrhyw un oedd â hawl i PYDd ar 31 Mawrth 2019 wedi eu symud drosodd i PYDd o dan y Cynllun newydd. I hwyluso'r gwaith hwn mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni o'r enw Atkins i gefnogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru.
- cytuno bod digartrefedd ymysg pobl o dan 35 oed yn bryder cynyddol. Nid yw digartrefedd yn digwydd o ganlyniad i CC yn unig, yn aml iawn mae llawer o ffactorau'n cyfrannu ato.
- er bod gwahanol fudd-daliadau a chredydau treth wedi'u cyfuno o dan ymbarél CC, nid oedd hynny'n golygu bod hawlwy'r wedi colli unrhyw fudd-daliadau. Byddai budd-daliadau blaenorol yn awr yn gydrannau o'r budd-dal CC newydd. Roedd rhai premïymau wedi'u stopio ond eraill wedi'u cyflwyno. Nod y CC newydd yw cefnogi'r rhai sy'n gallu gweithio i fynd yn ôl i'r gwaith gan sicrhau hefyd y cefnogir y diamddiffyn a'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio. Mae'n bosib yn awr i rai unigolion weithio a derbyn elfen o CC. Caiff CC ei gyfrifo yn seiliedig ar amgylchiadau unigol;
- bod CAB Sir Ddinbych yn awr wedi sefydlu adnodd yng Nghanolfan Waith y Rhyl i helpu gydag ymholiadau am ddigartrefedd. Mae'r swydd hon wedi'i noddi gan gynllun yr UE tan Ebrill 2020 ac mae'n rhoi profiad gwerthfawr i'r di-waith ar gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- bod Civica wedi cadarnhau na fu cynnydd dramatig mewn ôl ddyledion Treth y Cyngor o ganlyniad i gyflwyniad CC. Fodd bynnag mae Gwasanaeth Refeniw a Budd-dal Civica wedi cofnodi cynnydd o 33% yn ei lwyth gwaith

ers cyflwyniad CC. Credir mai'r rheswm am hyn yw'r prosesau mwy cymhleth cysylltiedig a CC a mwy o ymgysylltiad â chwsmeriaid. Roedd Civica yn llwyr ymgysylltiedig â CC a gwaith y Bwrdd. Roedd CAB Sir Ddinbych, drwy Canolfan Byd Gwaith a Mwy yn hyrwyddo argaeledd Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor a PYDd.

- bod trigolion ardal Dyffryn Dyfrdwy sy'n hawlio'u budd-dal CC drwy Ganolfan Waith Wrecsam wedi cael eu cefnogi, felly hefyd y rhai a oedd yn hawlio drwy Ganolfan Waith y Rhyl. Roedd saith pentref gwledig yn ne Sir Ddinbych a thrigolion ardal Dyffryn Dyfrdwy wedi cael cefnogaeth i dderbyn gwasanaethau, cyngor a gwybodaeth gan CAB Sir y Fflint drwy Bartneriaeth Cymunedol De Sir Ddinbych. Yn ychwanegol at bresenoldeb CAB yn Llyfrgell Llangollen un diwrnod yr wythnos, mae cyfleusterau Skype hefyd ar gael yn y Llyfrgell ar y dyddiau eraill er mwyn i bobl allu siarad â staff yn swyddfa CAB Rhuthun. Roedd perthnasoedd gwaith effeithiol yn bodoli rhwng staff llyfrgelloedd y Cyngor, CAB a staff Canolfannau Byd Gwaith ar draws y sir.
- bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi na fydd o Ebrill 2020 yn talu'r arian y mae'n ei roi i Awdurdodau Lleol i gefnogi hawlwyrr CC ar draws y DU ac y bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i CAB. Fodd bynnag oherwydd perthynas agos a chryf Sir Ddinbych gyda CAB sir Ddinbych, sydd eisoes yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau cefnogi CC ar ran y Cyngor, ni ddylai'r newid hwn gael effaith andwyol ar y Cyngor na'i drigolion. Byddai hyn yn cyfateb i golled £15k o incwm i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, fodd bynnag nid oedd y Gwasanaeth yn rhagweld pwysau ychwanegol gormodol o ganlyniad i golled incwm.
- atgoffwyd aelodau bod Cyngor ar Bopeth, yn cynnwys CAB Sir Ddinbych, yn sefydliad ymchwilio ac ymgyrchu yn ogystal ag yn sefydliad sy'n cefnogi unigolion. Mae'r sefydliad wedi bod yn llwyddiannus yn genedlaethol mewn sicrhau bod budd-dal yn cael ei ôl ddyddio o dan yr ymgyrch 'Treat as Made'. Yn Sir Ddinbych, yn ogystal â darparu gwasanaethau o'i swyddfeydd, mae gan CAB wasanaethau allgymorth er mwyn cyfarfod pobl yn y gymuned neu yn eu cartrefi eu hunain. Roeddent yn ddiweddar hefyd wedi dechrau darparu gwasanaethau ym Modelwyddan drwy'r gwasanaeth allgymorth.
- Mae gan CAB Sir Ddinbych ganolfan ddigidol yn ei swyddfeydd yn y Rhyl a ddefnyddir ymysg pethau eraill i wella sgiliau digidol derbynnyddion budd-dal. Mae CAB hefyd yn trafod gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau y posibilrwydd bod y AGP yn cydleoli aelod o'u staff o dro i dro yn swyddfeydd CAB yn Ninbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen.
- bod y graff yn Atodiad 1 yr adroddiad sy'n dangos bod nifer cynyddol o breswylwyr yn derbyn CC yn gadarnhaol gan ei fod yn dangos bod ymdriniaeth yr AGP, CAB a'r Cyngor yn effeithiol ac yn golygu bod preswylwyr yn ymgysylltu ar gam cynnar ac o bosibl yn llwyddo i osgoi cyrraedd pwynt o argyfwng.
- nad oes data ar gael sy'n awgrymu bod landlordiaid preifat yn dewis peidio gosod eiddo i bobl sy'n derbyn credyd cynhwysol oherwydd y ddyletswydd fydd ar y tenant i dalu eu rhent yn uniongyrchol i'r landlord. Roedd Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor wrthi'n trefnu digwyddiad fforwm Landlordiaid Preifat ar gyfer mis Mehefin. Mae CAD, Civica, adrannau'r Cyngor Sir, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL)



yn cymryd rhan yn y digwyddiad hwn a bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at Gynghorwyr Sir. Er bod disgwyliad y bydd y rhai sy'n derbyn budd-dal yn gyfrifol am dalu eu rhent yn syth i'w landlord, mae cyfle hefyd i denantiaid ddewis bod eu rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord. Fodd bynnag nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol ar hyn o bryd.

- bod CAB Sir Ddinbych wedi gwella ei brosesau er mwyn helpu hawlwr i sefydlu cyfleusterau bancio er mwyn derbyn taliadau budd-dal.
- y bydd yr AGP yn gwrando ar CAB pe bai ganddynt bryderon difrifol ynghylch hawliad neu amgylchiadau hawlwr pa un a ydynt yn gwpl, yn uned deuluol neu'n berson sengl.
- bod peth gwaith wedi'i wneud gyda'r Tîm Atal Digartrefedd i weld a oes unrhyw gysylltiad rhwng cyflwyniad CC a nifer y bobl sy'n mynd yn ddigartref.
- ar hyn o bryd dim ond hawlwr newydd a'r rhai hynny sydd wedi profi newid mewn amgylchiadau sydd â hawl i hawlio CC. Mae hawlwr budd-dal 'etifeddiaeth' yn debygol o ddechrau symud drosodd o ddiwedd 2020 ymlaen yn Sir Ddinbych, er nad yw'r AGP wedi cadarnhau'r union ddyddiad eto.
- bod talu CC yn broses pum wythnos. Fodd bynnag, yn ystod yr amser hwnnw gallai'r hawlydd wneud cais am daliad ymlaen llaw o hyd at 100% o'r swm y mae ganddynt hawl iddo. Roedd Cyngor ar Bopeth yn genedlaethol yn ymgyrchu i gwtogi'r broses i fod yn un pedair wythnos er mwyn adlewyrchu'r broses ar gyfer gweithwyr. Bydd Budd-dal Tai hefyd yn dal i gael ei dalu er mwyn cefnogi hawlwr.
- mae CAB Sir Ddinbych eisoes yn gweithio'n agos â banciau bwyd lleol. Ateb dros dro yn unig yw banciau bwyd. Byddai CAB Sir Ddinbych yn gweithio gyda theuluoedd ac unigolion mewn argyfwng er mwyn mynd i wraidd y broblem a'i dileu ar gyfer y dyfodol.
- mae'r AGP yn lleol yn hynod hyblyg ac yn barod i weithio'n agos gyda CAB a'r Cyngor er mwyn datrys problemau unigol, ac
- ar hyn o bryd nid oes unrhyw un o'r partneriaid yn rhagweld y bydd unrhyw broblemau mawr yn digwydd yn ystod y broses o drosglwyddo'r rhai sydd eisoes yn hawlio budd-dal drosodd i CC. Tra byddai rhai o dderbynyddion yr hen fudd-dal o bosibl wedi bod yn economaidd anweithgar ers cryn amser ac o bosibl ddim yn dda iawn gyda TG nac wedi arfer rheoli arian mewn ffordd wahanol, bydd y rhan fwyaf ohonynt yn byw bywyd mwy sefydlog h.y. bydd pobl sy'n dechrau derbyn CC ar hyn o bryd yn gwneud hynny oherwydd digwyddiad arwyddocaol yn eu bywydau (e.e. statws perthynas yn newid neu ddiswyddiad) ac ni fydd y rhai hynny sy'n symud drosodd dan reolaeth yn gorfod ymdopi gyda'r fath ddigwyddiad ar yr un pryd a newid drosodd i CC. Er mwyn paratoi ar gyfer y brif broses fudo bydd yr AGP yn cynnal peilot yn ardal Harrogate o dan yr ymdriniaeth 'Who Knows Me' er mwyn asesu effeithiolrwydd dulliau mudo, cyn eu rhoi ar waith yn genedlaethol.

Mewn perthynas â'r mater o ddigartrefedd yn Sir Ddinbych dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2019. Dywedodd yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth ei bod o'r farn bod Sir Ddinbych, fel Awdurdod Lleol, ochr yn ochr â'i bartneriaid, wedi gwneud gwaith rhagorol wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad CC a'i bod yn edrych ymlaen at dderbyn casgliadau'r astudiaeth ar CC a digartrefedd yn Sir Ddinbych.

Ar ddiwedd y drafodaeth

**Penderfynwyd:** - yn amodol ar y sylwadau uchod

- (i) llongyfarch y Cyngor ar ei ymdriniaeth a'i reolaeth o gefnogaeth ar gyfer preswylwyr mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych;
- (ii) parhau i gefnogi a chymeradwyo'r dull cyflawni prosiect y mae'r swyddogion yn ei ddefnyddio, sef y Bwrdd Credyd Cynhwysol; a
- (iii) gofyn bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ddiwedd 2020/dechrau 2021 i asesu effaith symud derbynyddion budd-dal etifeddiaeth drosodd i Gredyd Cynhwysol ar Wasanaethau'r Cyngor, ac effeithiolrwydd camau a gymerwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid i liniaru effeithiau trosglwyddo i CC ar breswylwyr a gwasanaethau'r Cyngor.

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) yn gofyn barn yr aelodau ar y rhaglen waith gan roi diweddariad ar faterion perthnasol.

Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd 5 mater arwyddocaol dan sylw yn y cyfarfod ar 4 Gorffennaf. Cytunwyd y dylid trafod yr adroddiad drafft ar dân mynydd Llandysilio mewn cyfarfod preifat arbennig o'r Pwyllgor cyn 4 Gorffennaf a chyn ei anfon at sefydliadau partner er ymgynghoriad yn barod ar gyfer ei gyhoeddi yng nghyfarfod mis Medi.

Atgoffwyd yr aelodau mai'r cyfarfod nesaf fyddai cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn fwrdeistrefol newydd, felly bydd gofyn i'r Pwyllgor ethol ei Is-Gadeirydd ar gyfer 2019/20. Gofynnir i aelodau sydd â diddordeb yn y swydd hon anfon eu CV at y Cydlynnydd Craffu erbyn 30 Mehefin.

***PENDERFYNWYD*** yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol - gweler Atodiad 1 i'r adroddiad.

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.06 a.m.**

|                                   |                                                                                      |
|-----------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Cymunedau</b>                                                     |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>4 Gorffennaf 2019</b>                                                             |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Cabinet Arweiniol Cynllunio, Gwarchod Y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd):</b>                            |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Mabwysiadu Siarter Cydymffurfio Cynllunio</b>                                     |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am fabwysiadu siarter cydymffurfio cynllunio, a'i bwrpas yw i nodi sut mae adroddiadau o achosion honedig o dor-rheolau rheolaeth gynllunio yn cael eu delio a'u datrys gan y Cyngor, a sut y gall achwynwyr a sefydliadau lleol megis Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned ein cynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Mae'r adroddiad yn ceisio ymlid y cynnig, a wnaethpwyd yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2018, i gyflwyno siarter cydymffurfio cynllunio. Bydd yr adroddiad yn disgrifio manteision mabwysiadu siarter o'r fath.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod yr Aelodau yn:
- 3.1.1 Penderfynu i ardystio'r siarter sydd wedi'i ddraftio ar hyn o bryd neu i wneud awgrymiadau am newidiadau pellach;
  - 3.1.2 Cytuno ar ddull addas o ddsbarthu (fersiwn gyfredol neu fersiwn diwygiedig) o'r siarter ymysg Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned i gael eu sylwadau; a
  - 3.1.3 Penderfynu ystyried unrhyw ddiwygiadau a all godi o'r ymgynghoriad gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac os yw'n bodloni, i argymhell bod y siarter yn cael ei fabwysiadu yng nghyfarfod mis Hydref 2019 o'r Pwyllgor Craffu.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol gyda swyddogaeth cydymffurfio effeithiol fel gall uniondeb y gyfundrefn cynllunio ei ddiogelu rhag datblygiad a allai ei danseilio. Cyflawnir hyn drwy sicrhau bod y swyddogaeth cydymffurfio yn gallu: a) ymchwilio i achosion honedig o dor-rheolau mewn modd amserol; ac yna b) fel bo'n

briodol, defnyddio polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol i ddatrys effeithiau niweidiol o ddatblygiadau sydd heb eu hawdurdodi.

- 4.2 Gall weithredu pwerau cydymffurfio cynllunio fod yn broses dwys ar amser ac adnoddau sydd wedi cyfyngu ar y posibilrwydd i gynhyrchu incwm i'r Gwasanaeth. Oherwydd yr angen i gyfrannu at dargedau arbedion ariannol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, mae un swyddog cydymffurfiaeth sydd yn cyflenwi'r sir i gyd, gan ddelio ag oddeutu 240 o adroddiadau o achosion honedig o dor-rheolau cynllunio (a gyfeirir atynt fel 'cwynion' hefyd) bob blwyddyn.
- 4.3 Rhoddodd y Gwasanaeth drosolwg o berfformiad y swyddogaeth cydymffurfio cynllunio i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2018. Bu i'r adroddiad nodi bod un o'r newidyn sydd yn effeithio ar berfformiad yw cymhlethdod yn yr achosion a ddelir â hwy. Nododd yr adroddiad y gall cymhlethdod mewn achos ei waethygu gan rhanddeiliaid sydd yn rhan ohono: achwynwyr sydd yn mynnu dro ar ôl tro ac yn barhaus ar weithredu, a rhai sy'n torri'r gyfraith sydd yn methu â pharchu cyfarwyddiadau'r Cyngor.
- 4.4 Er mwyn rheoli disgwyliadau'r achwynwyr ac atgyfnerthu goblygiadau ar y rhai sy'n torri'r gyfraith yn honedig, cynigiwyd bod y Cyngor yn mabwysiadu siarter cydymffurfio cynllunio sydd yn nodi'r prosesau ac amserlenni sydd yn rhan o'r ymchwiliad, a gorfodi yn erbyn unrhyw achosion honedig o dor-rheol cynllunio. Hefyd cynigiwyd y byddai defnyddio'r siarter i hyrwyddo cyfranogiad yr achwynwyr a'r sefydliadau lleol yn y broses ymchwilio – dull "helpu ni i'ch helpu chi" – yn lleihau'r pwysau ar adnoddau a darparu gwelliannau perfformiad pellach er lles pawb sydd ynghlwm. Gellir gweld y siarter arfaethedig yn Atodiad 1.
- 4.5 Yn benodol, cynigiwyd y gellir defnyddio'r siarter i ddod â pherthynas waith agosach rhwng y Cyngor a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Mae'r siarter yn nodi sut y gall Cynghorau Dinas, Tref a Chymunedau a) adrodd ar dor-rheolau cynllunio posibl, b) cynorthwyo'r rhan ymchwil o'r broses cydymffurfio a c) bod yn rhan o'r broses o gyflwyno canllawiau cynllunio a rheolaethau lleol a allai hwyluso cydymffurfiaeth cynllunio yn fwy effeithiol. Gobeithir y bydd y siarter yn symbylu Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i fod yn rhan o gynllunio manau a defnyddio eu cyllid i weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor i dargedu materion cynllunio penodol yn eu hardal. Nid yw hwn yn fater cydymffurfio cynllunio yn unig, ond mae'n cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol o greu cymunedau cryf drwy annog adfywio ac ymgysylltu â'r gymuned.
- 4.6 Mae'r siarter wedi'i rannu i adrannau i gynnwys y ddwy brif gynulleidfa y mae wedi anelu atynt; achwynwyr (gan gynnwys Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned) a'r rhai sy'n torri'r gyfraith. Mae'r adran gyntaf o'r siarter yn darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch beth sy'n cael ei gyfrif fel torri rheolaeth gynllunio, ac yn rhoi cyngor i ddatblygwyr ynghylch sut i osgoi cyfranogiad cydymffurfio cynllunio. Mae'r ail a'r drydedd adran wedi anelu'n benodol at achwynwyr a rhai sydd wedi torri'r gyfraith yn honedig yn eu tro.
- 4.7 Mae Adran 2 y siarter yn canolbwyntio'n bennaf ar egluro'r canlynol:
- Beth mae'r Gwasanaeth eisïau a ddim eisïau ymchwilio iddo;
  - Rôl preswylwyr a sefydliadau lleol;
  - Y broses ymchwilio - er enghraifft, dull y Gwasanaeth i ymchwilio safleoedd; a

- Beth sy'n digwydd unwaith y mae achos o dor-rheol yn cael ei ymchwilio
- 4.8 Mae Adran 3 y siarter yn canolbwyntio ar rhai sydd wedi torri'r gyfraith yn honedig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar egluro'r canlynol:
- Sut i ymateb i honiad gan y Cyngor;
  - Swyddogaethau hysbysiadau gorfodi gwahanol a chosbau am beidio â chydymffurfio;
  - Proses o wneud cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol; a
  - Pa bwerau sydd gan swyddogion i fynd ar dir.
- 4.9 Mae'r Gwasanaeth yn ystyried y bydd y siarter yn darparu canllaw sydd ei angen i rhanddeiliaid yn y system cydymffurfio cynllunio, a bydd ei fabwysiadu yn lleihau'r galw ar swyddogion, ac yn arwain at welliannau ym mherfformiad swyddogaeth cydymffurfio cynllunio.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Bydd mabwysiadu'r siarter cydymffurfio cynllunio yn cynyddu effeithlonrwydd y swyddogaeth cydymffurfio cynllunio, a'i bwrpas yw cefnogi darpariaeth pob Blaenoriaethau Corfforaethol, drwy reolaeth datblygu a arweinir gan bolisi.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Ni fydd mabwysiadu'r siarter cydymffurfio cynllunio yn cael goblygiadau ariannol uniongyrchol, a ni rhagwelir y bydd unrhyw oblygiadau sylweddol ar wasanaethau eraill.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

- 7.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gynnal datblygiadau cynaliadwy a hefyd i gymryd camau rhesymol wrth gyflawni ei swyddogaethau i fodloni ei amcanion datblygu cynaliadwy (neu les). Mae'r adroddiad hwn ar y siarter cydymffurfio cynllunio wedi ystyried y gofynion Adran 3 'Dyletswyddau Lles ar Gyrrff Cyhoeddus' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae asesiad o effaith ar les wedi'i atodi i Atodiad 2 yn unol â hynny.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1 Mae creu'r siarter cydymffurfio cynllunio wedi'i lunio o ganlyniad i ymgynghoriad ymlaen llaw gyda'r Pwyllgor Craffu, fel yr amlinellwyd yn adrannau 2 a 4 o'r adroddiad hwn. Mae'r siarter bob amser wedi bod yn amodol i ymgynghoriad o fewn y timau cefnogi a rheoli datblygiad cynllunio.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes risgiau a adnabuwyd i fabwysiadu'r siarter cydymffurfio cynllunio.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi grymoedd Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.

**12. Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd):

Ffôn: 01824 706727

## **Report to Communities Scrutiny Committee**

### **Adoption of a Planning Compliance Charter**

#### **Appendix 1: The draft planning compliance charter**

---

A1.1 The draft planning compliance charter is attached.

# Planning compliance in Denbighshire

## Planning compliance charter

Adopted [month] 2019





# Planning compliance in Denbighshire

Planning compliance charter

Adopted [month] 2019



## Contents

|                                                           |           |
|-----------------------------------------------------------|-----------|
| <b>1. Introduction</b>                                    | <b>5</b>  |
| 1.1 The purpose of the compliance charter                 | 5         |
| 1.2 What is a breach of planning control?                 | 5         |
| 1.3 Development which does not need planning permission   | 6         |
| 1.4 Avoiding planning compliance involvement              | 6         |
| 1.4.1 Lawful development certificates                     | 6         |
| 1.4.2 Pre-application advice service                      | 7         |
| <b>2. Advice for complainants</b>                         | <b>8</b>  |
| 2.1 What we do and don't investigate                      | 8         |
| 2.1.1 Development which is immune from enforcement action | 9         |
| 2.1.2 Speculative reports                                 | 9         |
| 2.1.3 Anonymous reports                                   | 9         |
| 2.2 The role of complainants                              | 10        |
| 2.2.1 The role of city, town and community councils       | 10        |
| 2.3 How to report an alleged breach of planning control   | 11        |
| 2.4 The investigation phase                               | 12        |
| 2.4.1 Site visits                                         | 14        |
| 2.5 What happens once a breach has been investigated?     | 14        |
| 2.5.1 Expediency                                          | 14        |
| 2.5.2 Remedial action                                     | 15        |
| 2.5.3 Formal enforcement action                           | 15        |
| <b>3. Advice for alleged contraveners</b>                 | <b>17</b> |
| 3.1 How to respond to an allegation by the Council        | 17        |
| 3.2 Formal notices                                        | 17        |
| 3.2.1 Enforcement Notices                                 | 18        |
| 3.2.2 Listed Building Enforcement Notices                 | 18        |
| 3.2.3 Breach of Condition Notices                         | 19        |

- 3.2.4 Stop Notices and Temporary Stop Notices ..... 19
- 3.2.5 Enforcement Warning Notices..... 19
- 3.2.6 Other notices ..... 20
- 3.3 Injunctions ..... 20
- 3.4 Submitting a planning application ..... 20
  - 3.4.1 Non-determination of retrospective planning applications ..... 20
- 3.5 Officers’ right of entry onto land ..... 20

DRAFT

## 1. Introduction

### 1.1 The purpose of the compliance charter

The planning regime exists to regulate the development and use of land in the public interest. Planning policies are adopted both nationally and locally to make sure that land is used and developed in an appropriate and responsible way. Applications for planning consent are submitted to Denbighshire County Council and judged against these adopted policies.

Not everyone applies for planning consent when they should. This is where the planning compliance function comes in. This charter sets out how the Council seeks to deal with the harmful effects of unauthorised works by ensuring that planning policies are applied proportionately but robustly.

|                                                                                           |                                                                                                                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>A social and physical environment that encourage and support health and well-being</b> | Local groups taking positive action to improve their physical and natural environment will have a positive impact. |
| <b>Access to good quality, healthy food</b>                                               | Not known                                                                                                          |
| <b>People's emotional and mental well-being</b>                                           | A better and more protected environment will support this.                                                         |
| <b>Access to healthcare</b>                                                               | Not known                                                                                                          |
| <b>Participation in leisure opportunities</b>                                             | Not known                                                                                                          |

**Negative impacts identified:**

|                                                                                           |  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| <b>A social and physical environment that encourage and support health and well-being</b> |  |
| <b>Access to good quality, healthy food</b>                                               |  |
| <b>People's emotional and mental well-being</b>                                           |  |
| <b>Access to healthcare</b>                                                               |  |
| <b>Participation in leisure opportunities</b>                                             |  |

**A more equal Denbighshire**

|                                 |                         |
|---------------------------------|-------------------------|
| <b>Overall Impact</b>           | Neutral                 |
| <b>Justification for impact</b> | Not known               |
| <b>Further actions required</b> | Not known at this stage |

**Positive impacts identified:**

|                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                              |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation</b> | Not known                                                                                                    |
| <b>People who suffer discrimination or disadvantage</b>                                                                                                                                                                                                               | Not known                                                                                                    |
| <b>Areas with poor economic, health or educational outcomes</b>                                                                                                                                                                                                       | It will be easier to prioritise such areas if CT&CC's identify issues they want tackling in these locations. |
| <b>People in poverty</b>                                                                                                                                                                                                                                              | Not known                                                                                                    |

### Negative impacts identified:

|                                                                                                                                                                                                                                                                       |  |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| <b>Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation</b> |  |
| <b>People who suffer discrimination or disadvantage</b>                                                                                                                                                                                                               |  |
| <b>Areas with poor economic, health or educational outcomes</b>                                                                                                                                                                                                       |  |
| <b>People in poverty</b>                                                                                                                                                                                                                                              |  |

## A Denbighshire of cohesive communities

|                       |          |            |
|-----------------------|----------|------------|
| <b>Overall Impact</b> | Positive | Tudalen 50 |
|-----------------------|----------|------------|

|                                 |                                                                                                                                                                                |
|---------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Justification for impact</b> | This is the main goal of this draft charter. There will be huge opportunities for positive community cohesion from empowering groups to target planning compliance priorities. |
| <b>Further actions required</b> | Not known at this stage                                                                                                                                                        |

**Positive impacts identified:**

|                                               |                                                                                                                                 |
|-----------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Safe communities and individuals</b>       | Targeting localised planning compliance issues will increase the feeling of safety by improving the environment for citizens.   |
| <b>Community participation and resilience</b> | This is all about involving the communities in how they manage their localities.                                                |
| <b>The attractiveness of the area</b>         | This charter will serve to improve the attractiveness of local areas.                                                           |
| <b>Connected communities</b>                  | there will be an opportunity to connect various groups in communities with the common goal to better police their environments. |
| <b>Rural resilience</b>                       | Rural communities can also identify projects that will benefit them.                                                            |

**Negative impacts identified:**

|                                               |                                                                                                        |
|-----------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Safe communities and individuals</b>       |                                                                                                        |
| <b>Community participation and resilience</b> | Possibility for conflicting issues within communities when it comes to planning compliance priorities. |
| <b>The attractiveness of the area</b>         |                                                                                                        |
| <b>Connected communities</b>                  |                                                                                                        |
| <b>Rural resilience</b>                       |                                                                                                        |

**A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language**

|                                 |                          |
|---------------------------------|--------------------------|
| <b>Overall Impact</b>           | Neutral                  |
| <b>Justification for impact</b> | Not known at this stage. |
| <b>Further actions required</b> | Not known at this stage  |

**Positive impacts identified:**

|                                     |                                                                              |
|-------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|
| <b>People using Welsh</b>           | Not known                                                                    |
| <b>Promoting the Welsh language</b> | Through targeting unauthorised and non-bilingual signage.                    |
| <b>Culture and heritage</b>         | Through targeting the refurbishment of traditional buildings in communities. |

**Negative impacts identified:**

|                                     |  |
|-------------------------------------|--|
| <b>People using Welsh</b>           |  |
| <b>Promoting the Welsh language</b> |  |
| <b>Culture and heritage</b>         |  |

**A globally responsible Denbighshire**

|                                 |                         |
|---------------------------------|-------------------------|
| <b>Overall Impact</b>           | Neutral                 |
| <b>Justification for impact</b> | Not known.              |
| <b>Further actions required</b> | Not known at this stage |

**Positive impacts identified:**

|                                                                  |                                                                                                                      |
|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Local, national, international supply chains</b>              | Not known                                                                                                            |
| <b>Human rights</b>                                              | Not known                                                                                                            |
| <b>Broader service provision in the local area or the region</b> | Will assist in a wider interest and collective responsibility for the protection and enhancement of the environment. |

**Negative impacts identified:**

|                                                                  |  |
|------------------------------------------------------------------|--|
| <b>Local, national, international supply chains</b>              |  |
| <b>Human rights</b>                                              |  |
| <b>Broader service provision in the local area or the region</b> |  |

|                                   |                                                                                  |
|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Cymunedau</b>                                                 |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>4 Gorffennaf 2019</b>                                                         |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel</b>     |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)</b>                         |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adolygu a Diweddariad ar y Prosiect Rheoleiddio Parciau Carafanau Gwyliau</b> |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â rheoleiddio parciau carafanau gwyliau yn y sir. Mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn monitro ac yn gorfodi yn erbyn pobl sy'n defnyddio'r carafanau hyn fel cartref parhaol.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad i Aelodau ar gynnydd gweithgareddau rheoleiddiol ac yn edrych a yw'r dull a gytunodd y Pwyllgor arno yn 2017 – i reoleiddio'r parciau ar sail 'busnes fel arfer' – yn arwain at yr effeithiau dymunol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod yr Aelodau yn:
- 3.1.1 Darparu sylwadau ar effeithiolrwydd y dull 'busnes fel arfer';
  - 3.1.2 Cefnogi swyddogion y Cyngor wrth iddynt barhau i ymchwilio i achosion anawdurdodedig o ddeiliadaeth breswyl ar barciau gwyliau;
  - 3.1.3 Cytuno y gellir parhau gyda'r rheoliad hwn ar sail 'busnes fel arfer' heb unrhyw atgyfeiriad pellach i'r Pwyllgor Craffu.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Hyd at 2017 roedd 'prosiect carafanau' rhagweithiol yn ceisio canfod a datrys achosion o ddeiliadaeth breswyl ar barciau gwyliau Sir Ddinbych. Roedd Aelodau, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol wedi datgan pryderon ynghylch boblogaeth gudd parciau gwyliau. I fynd i'r afael â'r mater yn effeithiol, roedd y prosiect yn cynnwys mewnbwn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Addysg a Phlant, yn ogystal â Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
- 4.2 Datblygwyd meddalwedd er mwyn monitro cronfeydd data amrywiol y Cyngor, ac mae ymchwiliadau cychwynnol wedi datgelu bod llawer o wasanaethau'r Cyngor yn

cael eu defnyddio gan bobl sydd wedi nodi carafán fel cyfeiriad. Ceir manylion cyfredol o ddefnydd gwasanaethau'r Cyngor yn Atodiad 1.

- 4.3 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn defnyddio'r offeryn monitro, mae swyddogion wedi archwilio'r safleoedd mwyaf problemus. Mae'r archwiliadau hyn, sydd wedi parhau drwy gydol 2018 a 2019, wedi cadarnhau bod achosion o ddeiliadaeth breswyl.
- 4.4 Mae cymryd camau rheoleiddio yn erbyn deiliadaeth breswyl anawdurdodedig yn gymhleth ac yn gofyn am dystiolaeth glir nad oes gan y deilydd brif breswylfa yn rhywle arall. Mae'n rhaid derbyn hefyd bod achosion o dorri rheoliadau sy'n cwmpasu sawl blwyddyn, ac felly mae'n bosibl bod rhai pobl wedi caffael imiwnedd rhag camau gorfodi.
- 4.5 Er gwaethaf hyn, yn ystod y tair blynedd ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyhoeddi chwe hysbysiad gorfodi yn ymwneud â deiliadaeth breswyl anawdurdodedig ar barciau carafanau. Ymhellach i hynny, mae un o'r achosion hyn wedi arwain at erlyniad. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am waith rheoleiddio perthnasol sydd wedi'i wneud hyd yma (eithriwyd yr atodiad hwn rhag cael ei ddatgelu drwy rinwedd paragraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972).
- 4.6 Mae mabwysiadu canllaw cynllunio atodol ar garfannau, cabannau a gweryslla<sup>1</sup> ym mis Gorffennaf 2018 wedi ategu gallu rheoleiddio'r gwasanaeth. Mae Adran 9 y ddogfen yn ymwneud â defnydd parciau gwyliau. Mae'n nodi y bydd y Cyngor, wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer parc gwyliau, yn gosod amod i gyfyngu ar ddefnydd carafanau at ddibenion gwyliau yn unig. Fel y cynigiwyd yn y cyfarfod Pwyllgor Craffu yn 2017, mae'r CCA hefyd yn nodi y bydd amod arall yn berthnasol er mwyn symleiddio'r broses o ymchwilio i achosion o dorri'r amod yn ymwneud â defnydd carafanau. Dyma'r cymal:

*Bydd deiliaid trwydded y safle carafanau neu ei unigolyn a enwebwyd yn cadw cofrestr ddiweddar o'r enw(au) a phrif gyfeiriad(au) y perchennog/perchnogion a phrif feddianwyr pob uned gwyliau unigol ar y safle. Bydd y gofrestr hefyd yn cynnwys copiâu diweddar yn gofyn am dreth y cyngor sydd yn perthyn i bob prif gyfeiriad a roddwyd. Bydd y gofrestr ar gael i Swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei harchwilio ar bob adeg resymol.*

- 4.7 Yn ogystal â chaniatâd cynllunio, mae'n rhaid i barciau gwyliau gael trwydded dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. Cyflwynir y drwydded pan dderbynnir caniatâd cynllunio ac os yw'r drwydded hon yn un 'untro'. Llunnir y trwyddedau yn defnyddio'r safonau enghreifftiol diweddaraf sydd ar gael ar adeg cyhoeddi'r drwydded. Mae'r trwyddedau yn rheoli am ba hyd y gellir aros mewn carafán ar y safle ac yn cael eu cyflwyno gydag amodau amrywiol yn ymwneud a materion fel gofodau rhwng carafanau, offer diogelwch tân, diogelwch trydanol, glanweithdra ac ati. Yn wahanol i ganiatâd cynllunio, gellir dileu trwydded os yw'r amodau'n cael eu torri'n gyson.

<sup>1</sup> Ar gael yn <https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/preswylwr/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/ldp-spg/spg-documents/adopted-spg-documents/Canllawiau-Cynllunio-Atodol-Carafanau-Cabanau-a-Gwersylla.pdf>

4.8 Ni cheir tystiolaeth bendant bod camau gorfodi yn erbyn pobl sy'n byw mewn carfannau ar barciau gwyliau yn anawdurdodedig wedi arwain at gynnydd mewn digartrefedd.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae rheoleiddio parciau gwyliau yn helpu i sicrhau bod y sector twristiaeth yn amgylchedd fasnachu teg y mae modd i fusnesau sy'n bodloni gofynion cynllunio a thrwyddedau yn ffynnu. Mae mynd i'r afael â sut mae parciau gwyliau yn gweithredu yn cyfrannu at Strategaeth Uchelgais Economaidd y Sir a'r prosiect Gwell Busnes i Bawb. Wrth annog perchnogion i beidio â gwerthu carafanau fel cartrefi parhaol, mae rheoleiddio parciau gwyliau hefyd yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforol o sicrhau bod gan bobl dai sy'n diwallu eu hanghenion.

## **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Dylai lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor a ddim yn talu Treth y Cyngor arwain at arbedion ariannol, ond efallai y bydd ymyriadau'r gwasanaeth yn arwain at fwy o geisiadau am dai.

6.2 Mae modd gwneud rhagor o waith rheoleiddio ar sail 'busnes fel arfer' o fewn adnoddau staffio presennol y gwasanaeth. Bydd unrhyw waith arall yn gofyn am adnoddau ychwanegol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Adroddiad diweddar yw hwn ac felly nid oes angen Asesu'r Effaith ar Les.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Rydym ni wedi cysylltu ag adrannau eraill o'r Cyngor, gan gynnwys yr Adain Gyllid, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, er mwyn derbyn data i gynorthwyo gyda'r ymchwiliadau.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylid cyfyngu cost y dull rheoleiddio a amlinellwyd o fewn yr adnoddau presennol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae atal pobl rhag byw mewn carafanau yn anawdurdodedig yn mynd i ddadleoli pobl. Mae yna risg, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, y bydd y rheiny sy'n cael eu dadleoli yn ddigartref. Gall y Cyngor wella'r sefyllfa hon drwy ddefnyddio ei bŵer yn ôl disgrisiwn i ymyrryd (e.e. drwy estyn y ffrâm amser ar gyfer cydymffurfio) ac, yn fwy cyffredinol, drwy sicrhau bod digon o lety addas ar gyfer pobl yn y sir – yn enwedig pobl ddigartref.

10.2 Mae yna risgiau ariannol ynghlwm wrth beidio ag ymgymryd â gwaith rheoleiddio pellach. Yn gyntaf, mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor a ddim yn talu Treth y Cyngor yn dreth gyson ar adnoddau'r Cyngor. Yn ail, mae yna risg y bydd y sector twristiaeth yn cael ei difrodi os yw diffyg rheoleiddio yn arwain at danseilio'r amgylchedd busnes teg sy'n rhoi cyfle cyfartal i bob gweithredwr lwyddo. Mae modd lleihau'r risgiau hyn os yw'r gwasanaeth yn parhau i gymryd camau gorfodi yn erbyn deiliadaeth anawdurdodedig pan geir tystiolaeth o hynny.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae adran 7.4.1(e) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi hawl y Pwyllgor Craffu i ystyried effaith polisiâu i asesu a ydynt yn gwneud gwahaniaeth, ac mae adran 7.4.2(b) yn amlinellu pweru'r Pwyllgor Craffu o ran perfformiad y Cyngor wrth gyflawni amcanion polisi.

11.2 Mae modd cymryd camau gweithredu i sicrhau cydymffurfedd a rheoleiddio safleoedd gwyliau carafanau dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960
- Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936
- Mae adran 7.4.1(e) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi hawl y Pwyllgor Craffu i ystyried effaith polisiâu i asesu a ydynt yn gwneud gwahaniaeth, ac mae adran 7.4.2(b) yn amlinellu pweru'r Pwyllgor Craffu o ran perfformiad y Cyngor wrth gyflawni amcanion polisi.

## **12. Swyddog Cyswllt**

Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

Ffôn: 01824 706727



## Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

### Adolygu a Diweddarau Prosiect Rheoleiddio Parciau Carafanau Gwyliau

#### Mynediad at wasanaethau o garfanau ar barciau gwyliau

A1.1 Mae'r Gwasanaeth wedi cynhyrchu teclyn monitro sy'n seiliedig ar feddalwedd sydd yn galluogi swyddogion i weld y carfanau lle mae rhywun yn derbyn gwasanaeth cyngor ac felly yn debygol o fod yn breswlydd yn hytrach na rhywun ar wyliau. Mae'r data a ddefnyddiwyd i greu'r darlun yn cynnwys:

- Gwybodaeth am y Gwasanaethau Cymdeithasol o PARIS;
- Gwybodaeth am addysg gan CAPITA ONE;
- Gwybodaeth am geisiadau Tai Cyngor gan CAPITA HOUSING;
- Gwybodaeth am Drwyddedu gan TASCAMI;
- Gwybodaeth am Gofrestru Etholiadol gan EXPRESS; a
- Cyfeiriadau carafanau a gwybodaeth ddaearyddol gan LLPG.

A1.2 Mae'r holl ddata yma wedi'u hechdynnu o'r system wreiddiol a'u trawsffurfio (i wneud y data'n gydweiddol) ac yna ei lwytho i 'warws data'. Mae'r teclyn cyflwyno (Power BI) yn cysylltu i'r data yn y 'warws data' ac yn arddangos y data fel teclyn rhyngweithiol gyda siartiau a thablau. Gellir defnyddio'r wybodaeth fel tystiolaeth mewn camau gorfodi a chefnogi'r trafodaethau 'meddal' rhwng swyddogion a pherchnogion safle i'w hannog i fabwysiadau arferion da.

A1.3 Ers i'r teclyn monitro gael ei sefydlu (rhwng adroddiadau craffu Tachwedd 2015 a Gorffennaf 2017), bu gostyngiad yn nifer yr achosion o wasanaethau'r Cyngor sy'n cael eu darparu i feddianwyr carafanau gwyliau, fel y dangosir yn y tabl isod.

|                           | 2015 | 2017 | 2019 | 2015-2019<br>gwahaniaeth |
|---------------------------|------|------|------|--------------------------|
| Cofrestru Etholiadol      | 98   | 71   | 72   | -26                      |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 7    | 1    | 10   | 3                        |
| Addysg                    | 20   | 15   | 4    | -16                      |
| Budd-dal Tai              | 1    | 0    | 0    | -1                       |
| Ceisiadau am Dai Cyngor   | 36   | 21   | 8    | -28                      |
| Trwyddedu                 | 6    | 3    | 0    | -6                       |

|                 |            |            |           |            |
|-----------------|------------|------------|-----------|------------|
| <b>Cyfanswm</b> | <b>168</b> | <b>111</b> | <b>94</b> | <b>-74</b> |
|-----------------|------------|------------|-----------|------------|

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                   |                                                                              |
|-----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Cymunedau</b>                                             |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>4 Gorffennaf 2019</b>                                                     |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b>                               |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Rheoli Gwylanod – Adroddiad Diweddarau</b>                                |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae gwylanod yn rhan o fywyd pob dydd ein trefi ac maent hefyd yn achosi niwsans i rai preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r hyn y mae modd i'r Cyngor ei wneud i geisio rheoli gwylanod yn gyfyngedig. Cytunodd y Cyngor i edrych ar fesurau cymesur a fforddiadwy i helpu i reoli'r niwsans. Cymeradwywyd cynllun gweithredu ac mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor yn erbyn y cynllun a'r camau gweithredu pellach arfaethedig.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 I ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y cynllun gweithredu, y camau penodol sydd wedi eu cymryd yn y Rhyl, ac i roi gwybod i'r Aelodau am gamau gweithredu arfaethedig eraill.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Argymhellir bod yr Aelodau yn ystyried ac yn darparu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi'r camau sydd wedi eu cymryd hyd yma.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Mae gwylanod (y ceir sawl rhywogaeth ohonynt) yn adar clyfar sy'n gallu addasu i amgylchfyd. Mae llawer ohonynt wedi dod yn rhan o fywyd trefol ac wedi symud yn raddol i fyw ar y tir. Mae gwylanod wedi eu diogelu dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- 4.2 Ar 22 Mawrth 2018 cyflwynwyd adroddiad manwl (Atodiad 1) i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn manylu ar y 'problemau' sy'n gysylltiedig â gwylanod. Cytunodd Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ar gynllun gweithredu (Atodiad 2) a chefnogwyd y cynllun gan yr Aelodau. Mae'r cynllun gweithredu yn gynllun ar draws y Cyngor sy'n manylu ar y camau y mae modd eu harchwilio a'u cymryd gan wahanol wasanaethau Cyngor. Yn ystod y 12 mis diwethaf mae gwasanaethau CSDd wedi ymgymryd â gwaith sydd yn ein barn ni wedi cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â rhai o'r 'problemau' sy'n gysylltiedig â gwylanod. Fel y cytunwyd yn ystod cyfarfod mis Mawrth 2018 y Pwyllgor Craffu, anfonwyd llythyrau i Lywodraeth Cymru, CLILC a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn iddarparu cefnogaeth a chymorth i ddelio gyda'r her genedlaethol a rhanbarthol hon – ni chafwyd ymateb gan yr un sefydliad.

#### 4.3 **Cwynion**

4.4 Ers 1 Mawrth 2018 mae CSDd wedi derbyn 45 o gwynion gan y cyhoedd am wylanod. Mae'r cwynion yn bennaf yn ymwneud â phreswylwyr yn cwyno am gymdogion yn bwydo gwylanod. Mae rhai yn ymwneud ag ymosod ar wylanod (ar Stryd Fawr y Rhyl yn bennaf). Pan dderbynnir cwynion o'r fath am fwydo gwylanod y tu allan i eiddo preswyl, mae swyddogion Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn anfon llythyr rhybuddio at y preswylwyr yn gofyn iddynt beidio â bwydo gwylanod ac i roi gwybod iddynt fod hynny yn achosi niwsans i bobl eraill. Ceir enghraifft o'r llythyr yn Atodiad 3. Os yw'r broblem yn parhau, yna mae'n bosibl cyflwyno hysbysiad cyfreithiol yn gofyn i'r person beidio â bwydo gwylanod. Hyd yma, nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad cyfreithiol i ddelio ag unrhyw broblem benodol y tu allan i eiddo preswyl. Nid ydym wedi derbyn cwynion am bobl yn bwydo gwylanod mewn mannau cyhoeddus neu ar stryd fawr ac ati.

#### 4.5 **Cyfyngau a Chyfathrebu**

4.6 Mae gwaith wedi ei wneud ar amlygu'r broblem ac ymgysylltu â phreswylwyr a busnesau er mwyn derbyn eu cefnogaeth i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd hyn yn cynnwys:

- Straeon newyddion yn gofyn i bobl beidio â bwydo gwylanod
- Erthyglau ar y wefan gorfforaethol
- Rhaglen o negeseuon cyfyngau cymdeithasol am y gwylanod
- Erthyglau mewn tri rhifyn o Llais y Sir
- Fideo gyda Phennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfyngau cymdeithasol
- Fideo gyda Maer blaenorol y Rhyl, yn croesawu'r newyddion bod y Cyngor yn lansio ymgyrch

4.7 Oherwydd gallu cyfyngedig Tîm Cyfathrebu/Swyddfa'r Wasg CSDd, nid ydynt yn gallu cefnogi'r prosiect i'r un lefel yn y dyfodol.

4.8 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi ariannu gwaith dylunio ac argraffu posteri i'w gosod yn ffenestri siopau a busnesau'r Rhyl sy'n cynghori aelodau o'r cyhoedd i beidio â bwydo gwylanod. Mae'r rhain wedi eu dosbarthu ac fe ddylent helpu i godi ymwybyddiaeth preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r posteri ar gael yn Atodiad 4.

#### 4.9 **Gweithgareddau Strydwedd/Gwastraff**

4.10 Mae'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol wedi cyflwyno manyleb gyffredin ac wedi rhoi biniau newydd yng nghanol tref y Rhyl ac ar y promenâd; mae'r biniau newydd yn dal mwy o sbwriel ac nid yw'r gwylanod yn gallu mynd i mewn iddynt. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn adborth cadarnhaol ers gwneud y newid hwn ac mae glanweithdra'r ardaloedd hyn wedi gwella'n aruthrol.

4.11 Mae'r rhaglen lanhau ac ysgubo hefyd wedi ei gwella, sydd bellach yn cynnwys gwagio biniau yn amlach, mwy o ysgubo a golchi celfi stryd yn rheolaidd efo peiriant golchi jet (yn enwedig yn ystod yr haf). Mae hyn wedi gwella bodlonrwydd a chanfyddiad pobl o'r parth cyhoeddus a chanol y dref.

- 4.12 Mae'r holl golofnau golau newydd yn cael eu hasesu'n rheolaidd i weld a oes modd gosod rhwystrau adar – ond nid yw hyn bob tro yn bosibl. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rheiny sydd ar yr arfordir yn cynnwys rhyw fath o fesur atal nythu.
- 4.13 Mae'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn edrych ar gost gosod a chynnal a chadw rhwydi yng nghanol tref y Rhyl ond, oherwydd y pwysau sylweddol ar gyllideb refeniw'r Gwasanaethau Stryd, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y byddwn yn ariannu'r rhain. Byddai gosod rhwydi hefyd yn golygu derbyn caniatâd landlordiaid preifat. Mae Ardal Gwella Busnes y Rhyl wedi dweud ei fod yn bwriadu buddsoddi £400,000 yn ystod y pum mlynedd nesaf mewn glanhau a chynnal a chadw (sef prif ffocws yr Ardal Gwella Busnes ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf), ac maent wedi ymrwymo'n benodol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â gwylanod. Felly, fe all hyn fod yn rhywbeth i'r Ardal Gwella Busnes edrych arno os yr ystyrir bod rhwydi yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â gwylanod.
- 4.14 Mae Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu yn parhau i geisio stopio defnyddio sachau untro yn yr ardal, gan ddarparu biniau ar olwynion i bob eiddo addas. Mae bagiau du wedi eu tipio a bagiau du sydd wedi eu rhoi wrth ymyl y ffordd ar ddiwrnodau casglu yn un o brif ffynonellau bwyd gwylanod.
- 4.15 Mae'r biniau cymunedol "ar y stryd", sydd wedi arwain at dipio sachau du, hefyd wedi eu symud, ac mae preswylwyr wedi llwyddo i ddefnyddio biniau unigol a'r cadis gwastraff bwyd sydd wedi eu hailddosbarthu.
- 4.16 Mae oddeutu 15 o eiddo yn rhoi sachau gwrth-wylanod mawr. Mae'r preswylwyr yn rhoi'r sachau untro y tu mewn i'r sach gwrth-wylanod, sy'n darparu dull effeithiol o gadw'r gwastraff. Mae'r adborth gan y preswylwyr sy'n defnyddio'r sachau wedi bod yn gadarnhaol iawn ac nid yw'r gwylanod wedi ceisio malu'r bagiau. Mae cais am gyllid wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy gynnig cenedlaethol a chydweithredol dan arweiniad Cadwch Gymru'n Daclus, disgwylir derbyn canlyniad y cais fis Chwefror. Gofynnwyd am gyllid i ddarparu digon o sachau gwrth-wylanod i bob aelwyd sy'n parhau i dderbyn y gwasanaeth casglu sachau oherwydd nad oes lle i gadw cynwysyddion bin. Byddai'r cyllid hefyd yn cwrdd â chost technoleg briodol i fonitro cyfranogiad a chydymffurfedd â gwasanaeth ailgylchu'r Cyngor. Mae cyllideb wrth gefn wedi ei dyrannu ar gyfer y prosiect hwn yn y Model Gweithredu Gwastraff Newydd, os nad yw'r cais am gyllid yn llwyddiannus. Yn dilyn adborth gweithwyr gwastraff a phreswylwyr, byddwn yn addasu dyluniad y sachau ychydig.
- 4.17 Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn prosiectau prawf ar draws y gogledd ar gyfer gorfodi ailgylchu. Llywodraeth Cymru sydd wedi ariannu'r prosiectau prawf, gyda WRAP yn datblygu'r ymgyrch gyfathrebu gysylltiol. Bydd y prosiect ar waith ar draws y sir ond mae gorllewin y Rhyl wedi ei ddewis fel ardal ffocws a bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu yno i annog mwy o bobl i ailgylchu. Bydd hyn yn helpu i stopio pobl rhag rhoi gwastraff bwyd yn y sachau untro ac yn eu hannog i ddefnyddio'r cadis gwastraff bwyd clodwy, gan dorri cyflenwad bwyd gwylanod. Bydd gwaith monitro cyn y prosiect prawf yn cael ei wneud fis Chwefror i ganfod data gwaelodlin pwysig a fydd yn helpu i werthuso'r ymgyrch.
- 4.18 **Gwasanaethau Eiddo CSDd**
- 4.19 Mae Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor yn parhau i ddarparu sicrwydd eu bod yn gweithredu mesurau i ddiogelu eiddo presennol a newydd rhag gwylanod, ble bo'n

'ymarferol' ac yn 'ariannol' bosibl gwneud hynny. Maent yn gweithredu mesurau priodol i wella neu atal problemau rhag gwaethygu. Mae'r holl ddatblygiadau glan y môr wedi eu dylunio a'u gwella i leihau effaith gwylanod. Ni fydd modd i ni waredu'r broblem yn gyfan gwbl. Ond byddwn yn gwneud ein gorau i leihau effaith gwylanod pan fyddwn yn buddsoddi yn ein heiddo. Mae mesurau atal gwylanod bellach yn rhan anhepgor o friffiau prosiect.

#### **4.20 Ardal Gwella Busnes y Rhyl**

4.21 Mae Ardal Gwella Busnes y Rhyl wedi nodi rheoli gwylanod fel blaenoriaeth. Maent ar hyn o bryd yn datblygu eu cynllun busnes terfynol ac felly mae'n bosibl y bydd yr Ardal Gwella Busnes yn ystyried ariannu gwaith rheoli gwylanod yn y dref.

4.22 Er bod y Cyngor dan bwysau ariannol sylweddol a chyllidebau yn lleihau, mae gwasanaethau CSDd wedi gwneud llawer o waith yn ystod y 12 mis diwethaf i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan wylanod yng nghanol y dref, wedi eu cydbwysu yn erbyn y ffaith bod gwylanod yn rhan o fywyd arfordirol.

4.23 Mae'n bosibl y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf, yn arbennig ar y cyd â busnesau'r Rhyl.

### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r gwaith yn cyfrannu at y blaenoriaeth gorfforaethol o ddarparu amgylchedd deniadol ac wedi ei diogelu.

### **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd angen ariannu'r holl gamau o fewn cyllidebau presennol y gwasanaeth.

### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Adroddiad diweddar yw hwn ac felly nid oes angen asesu'r effaith ar les. Cynhaliwyd asesiad ar adroddiad mis Mawrth 2017.

### **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd â gwasanaethau amrywiol CSDd, Pwyllgor Craffu Cymunedau ac Ardal Gwella Busnes y Rhyl.

### **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'n rhaid cynnwys yr holl gamau gweithredu a amlygwyd o fewn yr adnoddau presennol.

### **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Risg i enw da'r Cyngor ymhlith preswylwyr os na gymerir unrhyw gam i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon. Mae yna hefyd risg na fydd y camau gweithredu yn cael unrhyw effaith o gwbl ac y bydd mesur unrhyw effaith yn anodd.



## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- 11.1 Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ac felly nid oes angen gwneud penderfyniad.
- 11.2 Mae Adran 7.4.2(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod amod y gall pwyllgorau craffu "adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig".

### **Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Ffôn: 01824 706350

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                   |                                                        |
|-----------------------------------|--------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>                    |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>22 Mawrth 2018</b>                                  |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b>         |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adroddiad Diweddarau Rheoli Gwylanod</b>            |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae gwylanod yn rhan o fywyd bob dydd yn ein trefi a hefyd yn niwsans i rai preswylwyr ac ymwelwyr y Sir. Mae cyfyngiadau ar ba gamau gweithredu y gall y Sir eu cymryd i reoli'r boblogaeth wylanod. Cytunodd y Cyngor i archwilio rhai camau gweithredu cymesur a fforddiadwy y gallai helpu rheoli'r niwsans. Cymeradwywyd cynllun gweithredu, ac mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ôl y cynllun gweithredu rheoli gwylanod a gytunwyd arno yn ogystal â chynnig camau gweithredu ychwanegol.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd yn ôl y cynllun gweithredu, a rhoi cyngor iddynt am gamau gweithredu i'w cymryd yn y dyfodol.

## **3. Beth yw'r argymhellion?**

- 3.1 Gofyn i'r Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad, gwneud sylwadau yn unol â hynny a chefnogi'r camau gweithredu a wnaethpwyd hyd yn hyn.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Mae gwylanod yn adar hynod graff a hyblyg, ac mae llawer o fathau ohonynt. Yn raddol, mae llawer o wylanod wedi symud oddi wrth y môr ac wedi dod yn rhan o fywyd trefol. Mae gwylanod wedi'u diogelu o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- 4.2 Yn flaenorol, cyflwynwyd adroddiad manwl i'r Aelodau ar 23 Mawrth 2017 (Atodiad 1) yn nodi'r 'problemau' sy'n gysylltiedig â 'gwylanod'. Cytunodd Tîm Arwain Uwch (SLT) y Cyngor ar gynllun gweithredu, a'i gefnogwyd gan yr Aelodau yng Nghyfarfod Pwyllgor Archwilio Cymunedau 23 Mawrth 2017 (Atodiad 2). Roedd y cynllun gweithredu yn gynllun ar draws y Cyngor sy'n rhoi manylion am gamau gweithredu y gallai gwasanaethau amrywiol y Cyngor eu harchwilio ac ymgymryd ag hwy.
- 4.3 Er mwyn hwyluso dealltwriaeth, mae Atodiad 3 yn rhoi diweddariad am y camau gweithredu i'r Aelodau, a chamau gweithredu ychwanegol mae'r Aelodau eisiau i swyddogion eu hystyried yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Mawrth 2017.

- 4.4 Bydd yr Aelodau yn gweld yn Atodiad 3 fod cynnydd wedi cael ei wneud gan wasanaethau perthnasol Cyngor Sir Ddinbych, ac efallai yn dymuno nodi yn benodol fod Strategaeth Cyfathrebu wedi cael ei datblygu i roi gwybodaeth i breswylwyr, ymwelwyr a busnesau a'u haddysgu ynghylch camau gweithredu y gallent eu cymryd i helpu lleihau'r niwsans mae'r Gwylanod yn ei achosi. Mae'r strategaeth wedi ei hatodi yn Atodiad 4 i'r adroddiad hwn.
- 4.5 Bydd cysylltu â chyfathrebu â'r preswylwyr yn ein cynorthwyo ni i ddeall yn well y pryderon sydd ganddynt, a sut y gallwn fynd i'r afael ag hwy ac ymateb iddynt. Yn ôl arwyddion cynnar data Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid/cwynion a dderbyniodd y Cyngor, mae'n ymddangos mai prif achos y pryderon a'r cwynion yw gwylanod yn plymio at bobl, sydd yn aml yn bwyta, ar y strydoedd ac yn ymosod arnynt. Mae cynnydd mae'r Cyngor wedi ei wneud yn sicrhau nad ydy gwylanod yn gallu mynd mewn i finiau, cynnydd mewn gweithredu gorfodi yn erbyn pobl sy'n gollwng sbwriel ac ati, yn golygu fod gwylanod yn aml yn troi at ddwyn bwyd gan bobl sy'n cerdded ar hyd ein strydoedd. Nid oes llawer o dystiolaeth yn awgrymu bod problem eang o fwydo gwylanod.
- 4.6 Gellid mynd i'r afael ag unrhyw achosion gormodol o unigolion yn bwydo adar, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar breswylwyr eraill, trwy roi Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. Byddai'r rhain yn debygol o fod yn gyfyng o ran nifer, ond mae'r ddeddfwriaeth ar gael i fynd i'r afael â phroblemau parhaus.
- 4.7 Bydd yr ymgyrch cyfryngau ac addysg yn ein cynorthwyo i hysbysu preswylwyr ac ymwelwyr yn well am y risgiau a pha gamau gweithredu gellid eu cymryd i leihau risgiau a rheoli'r boblogaeth wylanod.
- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
- 5.1 Mae'r gwaith yn cyfrannu at y Blaenoriaeth Corfforaethol am ddarparu amgylchedd deniadol ac sydd wedi ei ddiogelu.
- 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
- 6.1 Bydd angen ariannu'r holl gamau gweithredu o fewn cyllidebau presennol y gwasanaeth.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**
- 7.1 Adroddiad diweddar yw hwn, ac felly nid oes angen ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Les. Lluniwyd asesiad yn flaenorol i Aelodau yn adroddiad Mawrth 2017.
- 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
- 8.1 Ymgynghoriadau gyda gwasanaethau amrywiol Cyngor Sir Ddinbych a Phwyllgor Archwilio Cymunedau.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Cedwir y gweithredoedd arfaethedig o fewn yr adnoddau presennol.

## **10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Risg i enw da'r cyngor ymysg preswylwyr os nad yw'r cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon. Mae yno hefyd risg bod y camau gweithredu yn cael effaith dibwys, a hefyd ei bod yn anodd mesur yr effaith.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Darparu diweddariad yw pwrpas yr adroddiad hwn, felly nid oes angen penderfyniad. Fodd bynnag, mae Adran 7.4.2(b) yn nodi gall y pwyllgor archwilio "adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig".

### **Swyddog Cyswllt:**

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Rhif ffôn: 01824 706350

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

“Seagull” Action Plan

| <b>Proposed Action</b>                                                                     | <b>Comment</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | <b>SLT conclusion</b>                                                                                                                          | <b>Update</b>                                                         |
|--------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------|
| Do Nothing                                                                                 | The Council currently has no agreed corporate approach. It is not a matter for 1 Service. There is currently no budget specifically allocated to dealing with seagulls.                                                                                                                                           | Consensus that there is an issue and that reasonable/proportionate/low cost actions should be implemented covered by existing Service budgets. | N/A                                                                   |
| Introduce a long term programme of culling (shooting, poisoning, trapping & disposing etc) | No in-house resource. Would need to employ specialist contractors.<br><br>Costs would be significant given the intensity and period of time.<br><br>Licensed required from WG<br><br>Impact of culling not proven (eg new birds move into the area to replace those culled)<br><br>Inhumane and open to criticism | No support for this approach.                                                                                                                  | N/A                                                                   |
| Introduce a long term programme of destroying nests/eggs, replace with “dummy” eggs etc.   | No in-house resource. Would need to employ specialist contractors.<br><br>Costs would be significant given the intensity and period of time.<br><br>Licensed required from WG<br><br>Some evidence that some positive impacts on population and behaviour.<br><br>Inhumane and open to criticism                  | No support for this approach based mainly on cost and limited impact.                                                                          | N/A                                                                   |
| Introduce a by-law or Public Space                                                         | Could be added to other Env/ASB offences such as dog fouling, littering etc.                                                                                                                                                                                                                                      | SLT not particularly supportive but concluded on seeking the views of Scrutiny as to                                                           | <b>Legal advice has been sought. A PSPO can only be introduced if</b> |

|                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|-------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Protection Order (PSPO) preventing the feeding of gulls</p>                | <p>(feeding birds is NOT littering)</p> <p>No evidence there is a particular problem of people feeding the gulls</p> <p>Difficult to enforce (eg people feeding gulls on private land, out of hours etc)</p> <p>Other Authorities have received objections based on human rights as certain religions promote the feeding of birds</p> | <p>whether or not to carry out a formal public consultation exercise.</p> <p><b>Lead Service; Planning &amp; Public Protection</b></p> | <p>there is a justified need i.e a real problem with seagull feeding. We do not have the number of complaints to justify the PSPO or a bylaw. Other powers are available such as legal notices to serve on individuals regularly feeding seagulls and having a detrimental effect on others.</p>                         |
| <p>Introduce variety of methods to “scare” birds in certain problem areas</p> | <p>Possible methods include loud bangs, play distress calls, introduce moving apparatus (eg “angry bird” ballons), use of live hawks etc.</p> <p>May discourage birds in areas deployed, although they will only move nearby and the impact is short lived</p>                                                                         | <p>Could be deployed in known problem areas.</p> <p><b>Lead Service; Highways &amp; Env</b></p>                                        | <p>This has been utilised in the past, but only has a limited (and temporary) impact. Evidence (from CRMs) suggests that this is not currently a major problem, as we only had 1 CRM about seagulls last year. It therefore doesn’t feel that there are currently any problem areas where we need to scare seagulls.</p> |
| <p>Introduce netting/bunting over public spaces</p>                           | <p>Limited locations where this could Introduced</p> <p>May require permission from private properties</p>                                                                                                                                                                                                                             | <p>Could be deployed in known problem areas.</p> <p><b>Lead Service; Highways &amp; Env</b></p>                                        | <p>We only have bunting on the High Street in Rhyl. We are not aware of any sites where similar bunting or netting is installed due to the lack of suitable fixing points.</p>                                                                                                                                           |
| <p>Discourage “perching” in public realm</p>                                  | <p>Ensure street furniture such as lampposts have spikes etc to prevent perching</p> <p>Limited impact</p> <p>Too expensive to retro fit</p>                                                                                                                                                                                           | <p>Already a consideration and is done.</p> <p><b>Lead Service; Highways &amp; Env</b></p>                                             | <p>We have fitted bird deterrents on most lighting columns in town centres, and also on areas where we have received reports through the CRM (which is very few). However, it should be noted that</p>                                                                                                                   |



|                                                                  |                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                  |                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                      | deterrents on lighting columns have a limited impact. We have recently changed most street bins in our coastal town centre areas to stop seagulls from accessing their contents.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Adapt existing Council buildings to help make them seagull proof | <p>Introduce netting over roofs, spikes on window ledges etc at Council buildings such as offices, schools etc.</p> <p>Potentially very expensive and therefore only to be considered at extreme “problem” buildings</p> | <p>Officers to consider adaptation and capital funding on those buildings were there is an accepted problem.</p> <p><b>Lead Service; Property</b> (+ Service responsible for building eg if a school, education)</p> | <p><b>We committed to do this if it was financially viable to do so and on the understanding it wouldn't feature highly in our maintenance programme ahead of essential maintenance elsewhere. i.e it wouldn't be at the expense of essential maintenance to our schools and public buildings. To date we have applied better solutions at Rhyl pavilion as an example, as part of a wider refurbishment programme. We do not have resources to seagull proof all our existing Council buildings. But when possible, we take the opportunity to do so, when refurbishing existing buildings and particularly when undertaking large capital works to rooflines.</b></p> |
| Design new Council buildings to help make them seagull proof     | Have a design criteria on all new Council buildings to consider preventing nesting/perching                                                                                                                              | <p>New Council Policy to ensure this is done.</p> <p><b>Lead Service; Property</b></p>                                                                                                                               | <p><b>Yes we apply this rule to all new development concepts. Nova, was one example, and now the Waterpark is being seagull proofed as</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |

|                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                        | much as practically possible within the design.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Introduce Supplementary Planning Guidance (SPG) to encourage all new buildings to consider being seagull proof at the design stage | Introduce “best practice” to “design out” gulls from new buildings (private sector).<br><br>Probably not always enforceable at the planning decision stage, as only guidance.                                                                        | Report to LDP Steering Group.<br><br><b>Lead Service; Planning &amp; Public Protection</b>                                                                                                                             | <b>A new planning information sheet is being developed to provide guidance to applicants on seagull proofing measures.</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Reduce availability of waste food through Council refuse collection                                                                | Ensure our public realm bins are seagull proof.<br><br>Encourage all households to recycle all food in appropriate containers.<br><br>Remove all bin bags from normal collection                                                                     | Officers to have regard to these factors and seek improvements as possible<br><br><b>Lead Service; Highways &amp; Env</b>                                                                                              | <b>Duty of Care inspections of food businesses to ensure that they have commercial waste disposal contracts, that they are using containers (which vermin cannot access) and that they have an adequate number of containers for the volume of waste they produce. In certain areas where we have specific problems with seagulls, Public Protection Officers are also checking refuse storage etc during food hygiene inspections of food businesses.</b> |
| Reduce the availability of waste food at food business premises                                                                    | Ensure food business premises dispose of their waste food appropriately and in seagull proof containers<br>Work with food business to suggest ways of limiting food litter and where necessary more enforcement of the fast food litter legislation. | Officers to do more with food business premises to reduce food litter and availability of waste food for the gulls.<br><br><b>Lead Service; Highways &amp; Env and Planning &amp; Public Protection (food hygiene)</b> | <b>As above and specific work being done in Rhyl as part of the West Rhyl Neighbourhood Management Project.</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |

|                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Have an ongoing campaign to educate the public/businesses not to feed gulls and to take more responsibility to deal with gull nests on their property</p> | <p>Concerted PR campaign run every year to encourage none feeding of gulls, gull proofing properties, less food waste etc</p> <p>Provide leaflets for display in food business premises regarding not to feed the gulls and to take care when eating in the open</p> | <p>Officers to put together a PR campaign.</p> <p><b>Lead Service; Communications &amp; Marketing</b></p> <p>Signs to be erected around relevant towns “do not feed the gulls”.</p> <p><b>Lead Service; Highways &amp; Env and Planning &amp; Public Protection</b></p> <p>Adverts for food business premises.</p> <p><b>Lead Service; Planning &amp; Public Protection</b></p> | <p><b>Communications Strategy developed to incorporate media messages, signs, engagement with the public, businesses, Members and others.</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <p>Lobby WG, WLGA and NRW to make the issue more of a national or at least regional campaign</p>                                                             | <p>Seek a more consistent national approach</p>                                                                                                                                                                                                                      | <p>Lead Member to write to relevant organisations.</p> <p><b>Lead service; Planning &amp; Public Protection</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                             | <p><b>To be undertaken</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <p>Other actions suggested by Members at the March 2017 Committee Meeting</p>                                                                                | <p>Raise awareness through distributing the refuse calendars.</p> <p>Consider taking out of hours enforcement action if food waste is left out in an unsecure location/manner</p>                                                                                    | <p><b>Lead service: Highways and Env Services</b></p> <p><b>Lead Service: Highways and Env Services</b></p>                                                                                                                                                                                                                                                                     | <p><b>We will undertake an awareness campaign the next time the calendars are released which will be Nov 2018. The wider communications strategy will also send messages out to residents.</b></p> <p><b>Very few domestic properties without food waste collections. All using gull proof caddies. No capacity to undertake out of hours enforcement action however any complaint should be submitted through CRM and will</b></p> |

|  |                                                                              |                                                            |                                                                                                                                                                                                       |
|--|------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | <p>Explore the effectiveness of contraceptives on the seagull population</p> | <p><b>Lead Service: Planning and Public Protection</b></p> | <p><b>be investigated by waste enforcement officers and recycling officers</b></p> <p><b>No licensed contraceptives for birds in the UK. Research to date suggests that they are ineffective.</b></p> |
|--|------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

Eich cyf / Your ref

Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date

Rhif union / Direct dial 01824 706454

Owner/Occupier  
Address  
Address  
Denbighshire  
Post Code

**Appendix 3**

Dear Sir, Madam

**ALLEGED NUISANCE BIRD FEEDING – ADDRESS, POST CODE**

We have received a complaint **alleging** the existence of a nuisance caused by feeding the birds in the above area on a regular basis, specifically Pigeons and Seagulls.

This matter has now been referred to our section as there is now new legislation under the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 to deal with nuisance behaviour which is detrimental to people in the community. This is an **advisory letter** only at this stage but if there is evidence of a persistent and continuing problem we may seek to take formal action.

Birds such as pigeons, seagulls and other larger species (jackdaws, crows etc) may cause annoyance or nuisance to people because of the noise they create, the damage they can cause to buildings and the fact that they spread disease through their droppings. In addition to this, an aspect that gives concern for public health is that when food is put out for birds, vermin such as rats are also encouraged to the area.

We appreciate that people like to feed birds but would request that food put out is only for the attraction of small garden birds and not the larger varieties likely to cause nuisance. Advice is available from the RSPB website: [www.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/advice/helpingbirds](http://www.rspb.org.uk/makeahomeforwildlife/advice/helpingbirds).

Should you wish to discuss this matter further please contact us on the details above.

Yours sincerely

Swyddog Lles Anifeiliaid  
Animal Health Welfare Officer

Cyngor Sir Ddinbych  
Blwch Post 62  
Rhuthun,  
Sir Ddinbych LL15 9AZ  
Ffôn: 01824 706454  
Ffacs: 01824 706051  
Symudol:  
e-bost: [iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk](mailto:iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk)  
Gwefan: [www.sirddinbych.gov.uk](http://www.sirddinbych.gov.uk)

Denbighshire County Council  
PO Box 62  
Ruthin,  
Denbighshire LL15 9AZ  
Phone: 01824 706454  
Fax: 01824 706051  
Mobile:  
e-mail: [animalhealth@sirddinbych.gov.uk](mailto:animalhealth@sirddinbych.gov.uk)  
Website: [www.denbighshire.gov.uk](http://www.denbighshire.gov.uk)





**PEIDIWCH A'M BWYDO..  
BWYDWCH Y BIN!**

**DON'T FEED ME..  
FEED THE BIN!**

I adrodd unrhyw broblemau gyda gwylanod, ffoniwch  
To report any issues with seagulls, please phone

**01824 706000**

neu drwy e-bost: [ymholiadau@sirddinbych.gov.uk](mailto:ymholiadau@sirddinbych.gov.uk)  
or e-mail: [enquiries@denbighshire.gov.uk](mailto:enquiries@denbighshire.gov.uk)

Tudalen 81

A seagull is shown in flight against a clear blue sky. The bird is white with a yellow beak and red webbed feet. It is flying towards the left of the frame, with its wings spread wide. The background is a solid, bright blue.

**PEIDIWCH A'M BWYDO..  
BWYDWCH Y BIN!**

**DON'T FEED ME..  
FEED THE BIN!**

I adrodd unrhyw broblemau gyda gwylanod, ffoniwch  
To report any issues with seagulls, please phone

**01824 706000**

neu drwy e-bost: [ymholiadau@sir-ddinbych.gov.uk](mailto:ymholiadau@sir-ddinbych.gov.uk)  
or e-mail: [enquiries@denbighshire.gov.uk](mailto:enquiries@denbighshire.gov.uk)

Tudalen 82



|                                   |                                                                                                     |
|-----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Cymunedau</b>                                                                    |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>4 Gorffennaf 2019</b>                                                                            |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrrd</b>                                              |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Meysydd Parcio Sir Ddinbych</b>                                                                  |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithredu'r Cynllun Buddsoddi Mewn Meysydd Parcio a mentrau parcio eraill.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Oddeutu dwy flynedd yn ôl datblygodd y Cyngor Gofrestr Rheoli Asedau ar gyfer ei feysydd parcio. Cyn hyn, nid oedd gennym ni gofnod o asedau meysydd parcio, a oedd yn gwneud pethau'n anodd wrth geisio rheoli'r asedau'n effeithiol. Arweiniodd hyn at ormod o waith cynnal a chadw ymatebol a heb ei gynllunio, ac roedd y buddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw cynlluniedig yn annigonol. Ddechrau 2018 datblygwyd Cynllun Buddsoddi Mewn Meysydd Parci i nodi a blaenoriaethu buddsoddiadau mewn meysydd parcio dros gyfnod o bum mlynedd.
- 2.2 Mae ein meysydd parcio yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi canol trefi ac atyniadau twristiaid. Maent yn byrth i'n trefi; ac i lawer o bobl sy'n teithio mewn car y maes parcio yw'r peth cyntaf maent yn ei brofi pan fyddant yn cyrraedd. Felly mae'n bwysig iawn bod ein meysydd parcio yn ddiogel, glan, taclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.
- 2.3 Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi derbyn adroddiadau ar y Gofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r Cynllun Buddsoddi ym mis Gorffennaf 2017 a mis Mawrth 2018. Yn ystod cyfarfod mis Mawrth, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad pellach yn 2019. Mae copi o adroddiad mis Mawrth 2018 yn Atodiad A er gwybodaeth.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, yn darparu sylwadau ac yn cefnogi parhad y gwaith a wneir i weithredu'r Cynllun Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r mentrau eraill a restrir yn yr adroddiad.

#### 4. Manylion yr adroddiad

##### Cyflwyniad

- 4.1 Rydym ni'n cydnabod bod meysydd parcio sydd wedi'u rheoli'n dda yn gallu cefnogi canol trefi ac atyniadau twristiaid, ac yn ffurfio rhan allweddol o'n gwaith adfywio.
- 4.2 Bydd y Gofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r Cynllun Buddsoddi yn ein helpu ni i reoli ein hasedau yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, bydd y Cynllun Buddsoddi hefyd yn ein helpu i wella cyfleusterau ein meysydd parcio, fel gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr a ffyrdd mwy hyblyg o dalu am barcio.
- 4.3 Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r gwaith amrywiol sydd wedi'i wneud yn ein meysydd parcio ers yr adroddiad diweddar diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Mawrth 2018.
- 4.4 Mae'r Cynllun Buddsoddi gwreiddiol ar gael yn Atodiad B. Diwygiwyd y cynllun hwn yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn cydlynu gwaith gwella maes parcio gyda rhai o'r prosiectau adfywio oedd ar waith.
- 4.5 Roedd y Cynllun Buddsoddi gwreiddiol yn cynnig gwario £566,000 yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun (sef blwyddyn ariannol 2018-19)); roedd hyn i fod i gael ei ariannu'n bennaf drwy fenthycia darbodus, a'i ad-dalu dros y blynyddoedd yn defnyddio cyllideb refeniw meysydd parcio. Fodd bynnag, mae'r gwaith i ailddatblygu Maes Parcio Canol y Rhyl (sef yr hen faes parcio tan y ddaear) a'r angen i ymgymryd â gwaith brys mewn maes parcio arall wedi golygu newidiadau i'r Cynllun Buddsoddi. Mae'r Cynllun Buddsoddi diwygiedig ar gael yn Atodiad C ac mae bellach yn cynnwys mwy o wariant ym mlynnyddoedd 3, 4 a 5 o gymharu â'r cynllun gwreiddiol. Gwnaethpwyd y newid hwn yn rhannol oherwydd yr angen i ail flaenoriaethu gwaith i gyd-fynd â phrosiectau adfywio ac yn rhannol oherwydd bod arnom ni eisiau gwerthuso effaith rhai prosiectau diweddar ar refeniw meysydd parcio cyn i ni ymrwymo i fenthyc rhagor o arian.

##### Manylion y gwelliannau a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Buddsoddi (2018-19)

- 4.6 Mae'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Buddsoddi wedi'i restru ar dudalen gyntaf y Cynllun Buddsoddi Diwygiedig (Atodiad C) ac mae lluniau o'r gwaith gorffenedig yn Atodiad D. Ceir crynodeb o'r gwaith isod.
- 4.7 Tua diwedd blwyddyn ariannol 2018-19 gosodwyd 15 peiriant talu ac arddangos newydd. Mae hyn felly yn dod â chyfanswm y peiriannau newydd i 30, sy'n golygu bod 33% o'n peiriannau yn cynnig dewis i dalu drwy ddefnyddio cerdyn sglodyn a PIN, technoleg digyffwrdd neu gydag arian mân. Mae'r peiriannau newydd hyn hefyd wedi'u rhwydweithio ac yn anfon negeseuon atom ynglŷn â diffygion, gwerthiannau a lefelau arian. Bydd yr wybodaeth am arian yn ein helpu ni gynllunio casgliadau arian yn fwy effeithlon.
- 4.8 Mae'r gwaith i ailwampio Maes Parcio Canol y Rhyl (y maes parcio dan y ddaear) wedi'i gwblhau'n ddiweddar, gyda'r maes parcio wedi ailagor ddechrau mis Ebrill 2019. Mae'r gwaith ailwampio wedi cynnwys mynediad newydd i gerddwyr, lledu'r mynediad i gerbydau, canopiâu newydd dros y grisiau, system awyru newydd,

system larwm tân newydd, goleuadau newydd arwyddion newydd a system TCC newydd. Rydym ni hefyd wedi newid y ffordd rydym ni'n rheoli'r maes parcio hwn i wella gwaith cynnal a chadw a drwy greu rôl newydd, sef goruchwylir safle'r maes parcio. Bydd y goruchwylwr yn gyfrifol am Faes Parcio Canol y Rhyl a Maes Parcio Aml-lawr Dinbych.

- 4.9 Yn ystod y deuddeg mis diwethaf rydym ni hefyd wedi ailwampio Maes Parcio Stryd y Dyffryn yn Ninbych. Dyma brosiect oedd i fod i ddigwydd tua diwedd y Cynllun Buddsoddi. Fodd bynnag, oherwydd bod rhannau o'r cerrig palmant wedi dod yn rhydd ac yn achosi perygl i gerddwyr, dygwyd y prosiect hwn ymlaen i'r flwyddyn gyntaf. Mae'r arwyneb oedd wedi malu wedi'i ail-osod. Rydym ni hefyd wedi manteisio ar y cyfle hwn i newid cynllun y cwrbyn o amgylch y peiriant talu ac arddangos er mwyn ei wneud yn fwy diogel a hygyrch i gerddwyr.
- 4.10 Yn ystod haf 2018, agorwyd maes parcio arhosiad byr newydd ar Stryd y Frenhines, y Rhyl, gyda lle i 20 car.
- 4.11 Cafodd Maes Parcio'r Tŵr Awyr ei ailwampio fis Chwefror/Mawrth i gyd-fynd â'r gwaith ar SC2. Roedd y gwaith ailwampio yn cynnwys gosod arwyneb newydd, gwella'r system ddraenio dŵr wyneb, ailwampio'r celfi stryd ac ad-drefnu ychydig ar gynllun y maes parcio.
- 4.12 Yn dilyn y gwaith y llynedd i ailwampio Maes Parcio'r Nova ym Mhrestatyn, mae rhagor o waith ailwampio wedi'i wneud eleni, sef gwella hygyrchedd, gosod peiriant talu ac arddangos newydd a gosod arwyddion newydd.
- 4.13 Rhoddwyd cynllun i newid arwyddion prisiau a gwybodaeth meysydd parcio'r Rhyl a Phrestatyn ei roi ar waith ym mis Mawrth 2019. Mae'r gwaith i newid arwyddion meysydd parcio eraill y sir ar y cam dylunio, gyda'r arwyddion newydd i fod i gael eu gosod yn ystod y tri mis nesaf.
- 4.14 Mae gwelliannau i Faes Parcio Ffordd y Parc, Rhuthun, wedi cynnwys gwella'r tirlunio a newid y blociau concrid dros dro a osodwyd yn wreiddiol i atal gyrru anghymdeithasol yn y maes parcio, yn enwedig gyda'r nos.
- 4.15 Cyflwynwyd ardal o fannau parcio am ddim (tebyg i'r rheiny ar Stryd y Farchnad, Rhuthun a Ward y Ffatri, Dinbych) ym meysydd parcio Ffordd Morley a Stryd Gorllewin Cinmel, y Rhyl yn dilyn adborth gan fusnesau a Chyngor Tref y Rhyl.
- 4.16 Mae mynediad Maes Parcio Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl, wedi'i wella ac mae llwybr troed newydd wedi'i greu i mewn i'r maes parcio er mwyn gwella diogelwch.
- 4.17 Mae Cytundebau Gwasanaeth Newydd wedi'u datblygu ar gyfer pob maes parcio er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei eitemeiddio'n gywir ac i'n galluogi i wella'r ffordd rydym ni'n monitro gwaith cynnal a chadw ein meysydd parcio.
- 4.18 Ym mis Mehefin 2018 cafodd awr ychwanegol o barcio ei gyflwyno ar gyfer deiliaid Bathodynnau Glas. Bydd deiliaid Bathodynnau Glas sy'n defnyddio meysydd parcio'r

sir yn derbyn awr ychwanegol o barcio ar ben yr amser a nodir ar y tocyn talu ac arddangos.

#### Gwaith Ail Flwyddyn y Cynllun Buddsoddi (2019-20)

- 4.19 Rydym ni ar hyn o bryd yn datblygu manyleb ar gyfer system newydd i ddisodli'r trwyddedau parcio papur gyda system di-bapur. Bydd y system newydd yn fwy cyfleus ar gyfer deiliaid trwydded a bydd yn lleihau'r gwaith gweinyddol. Bydd y system newydd yn gweithio drwy storio rhifau cofrestru cerbydau deiliaid trwydded ar gronfa ddata ddiogel, y mae modd eu gwirio gan swyddogion gorfodi yn defnyddio ffonau clyfar. Bydd y system newydd hefyd yn galluogi defnyddwyr meysydd parcio i dalu am barcio yn defnyddio ap ffôn clyfar.
- 4.20 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym ni wedi gosod contract newydd i gasglu arian meysydd parcio ar gynnig. Bydd hyn yn fwy effeithlon a diogel na'r system fewnol bresennol, ac ni fydd yn arwain at gollu swyddi. Disgwylir hefyd y bydd cyfran o'r arian a gesglir yn lleihau dros amser wrth i ddewisiadau talu heb arian gael eu cyflwyno mewn mwy o feysydd parcio.
- 4.21 Rydym ni'n bwriadu newid rhagor o beiriannau talu ac arddangos yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20.

### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Clymu Cymunedau: Cysylltu cymunedau a galluogi iddynt gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafnidiaeth da. Mae parcio hygyrch yn hanfodol ar gyfer siwrneiau yn y car i ganol trefi.
- 5.2 Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd. Mae meysydd parcio deniadol sydd wedi'u rheoli'n dda yn ychwanegu at economi twristiaeth ac economi manwerthu canol trefi.

### **6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a nodir yn y Cynllun Buddsoddi Mewn Meysydd Parcio yn cael ei ariannu o fewn y gyllideb refeniw bresennol ar gyfer meysydd parcio. Mae hyn yn cynnwys cost ad-dalu unrhyw fenthycyca darbodus sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn meysydd parcio.
- 6.2 Mae'r buddsoddiad sylweddol ym Maes Parcio Canol y Rhyl yn destun achos busnes ar wahân yn ymwneud â'r cynnydd disgwyliedig yn ei ddefnydd yn sgil agor SC2.

### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Gan fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad am weithredu'r prosiect ac nad yw'n gofyn am benderfyniad, ni fydd angen Asesu'r Effaith ar Les.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar gynnydd yn dilyn yr adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2016, mis Gorffennaf 2017 a mis Mawrth 2018.
- 8.2 Wrth baratoi'r Cynllun Buddsoddi Mewn Meysydd Parcio, ymgynghorwyd â'r chwe Grŵp Ardal yr Aelodau ar wahân.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddi yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol er mwyn i'r grŵp eu trafod a'u cymeradwyo.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Benthyg gormod a rhoi pwysau ar gyllidebau'r dyfodol. I leihau risg caiff penderfyniadau yn ymwneud â benthyca eu datblygu gyda chydweithwyr o'r Adain Gyllid ac yna fe'u cyflwynir hwy i'r Grŵp Buddsoddi Strategol i'w cymeradwyo.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu o ran astudio effaith penderfyniadau a defnyddio polisïau.

### **Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd  
Ffôn: 01824 706959

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## ATODIAD A

|                                 |                                                                                                                |
|---------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>                                                                            |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>22 Mawrth 2018</b>                                                                                          |
| <b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol dros Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy/Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd</b>                                                            |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Meysydd Parcio yn Sir Ddinbych</b>                                                                          |

### 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Diweddariad ynghylch gweithredu'r Gofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r Rhaglen Fuddsoddi yn ogystal â'r Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio traws-wasanaeth yn unol ag argymhellion yr adroddiad aeth at y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Gorffennaf 2017.

### 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaeth y Pwyllgor gais am adroddiad cynnydd pellach ym mis Mawrth 2018. Mae copi o adroddiad Gorffennaf 2017 yn Atodiad A.

### 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, rhoi arsylwadau, a chefnogi'r gwaith parhaus i weithredu'r Gofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio, y Rhaglen Fuddsoddi a gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio.

### 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd i ddatblygu systemau a fydd yn ein cynorthwyo i reoli ein meysydd parcio yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn gwella "profiad ymwelwyr" ar gyfer defnyddwyr y meysydd parcio yn ogystal â bod o fudd i'r economi, o ran manwerthu a thwristiaeth.
- 4.2 Mae dwy elfen i'r gwaith hwn:
  - Datblygu Cofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio (CPAMR) a Rhaglen Fuddsoddi er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau mewn meysydd parcio, gyda'r nod o wella eu hedrychiad a hwylustod wrth eu defnyddio.
  - i) Gweithredoedd cyflenwol eraill sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio ein meysydd parcio. Bydd hyn yn cynnwys; er enghraifft, darpariaeth well o wybodaeth; trefniadau tocynnau mwy hyblyg; a system trwyddedau parcio fwy modern.

## Cofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio

- 4.3 Datblygwyd Cofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio (CPAMR) i'n cynorthwyo i reoli asedau ein meysydd parcio yn fwy effeithlon a chadw cofnodion manwl o'u cyflwr. Nid oedd cofnod o'r asedau hyn yn flaenorol, felly gwnaethom gomisiynu'r Uned Waith Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i gynnal gwaith tirlfesur helaeth i gofnodi lleoliad a chyflwr pob ased yn ein meysydd parcio. Maent hefyd wedi tynnu cofnodion ffotograffig o bob ased hefyd.
- 4.4 Mae pob ased wedi cael ei fapio gan ddefnyddio technoleg tir fesur System Leoli Fyd-eang (GPS) fel eu bod yn hawdd i staff archwilio a chontractwyr cynnal a chadw i'w lleoli, er enghraifft. Mae'r holl wybodaeth am yr asedau yn cael ei chadw mewn cronfa ddata gyfrinachol.
- 4.5 Enghreifftiau o asedau meysydd parcio yw wyneb y maes parcio; marciau/llinellau ffordd; arwyddion yn y meysydd parcio; peiriannau Talu ac Arddangos; rhwystrau siglo; rhwystrau uchder; pyst; waliau a ffensys ffin; systemau draenio dŵr wyneb; goleuadau meysydd parcio; tirlunio addurnol ac adeiladol, ac ati.
- 4.6 Mae cyflwr bob ased wedi ei asesu o ran gweddill ei oes, neu mewn geiriau eraill, faint o amser sydd tan ei fod angen ei amnewid.
- 4.7 Staff archwilio Strydwedd Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n cynnal archwiliadau arferol o'n meysydd parcio ar hyn o bryd, yn ôl amserlen a bennwyd ymlaen llaw. Bydd y drefn archwilio hon yn parhau yn y dyfodol, ond bydd CPAMR ar gael ar ddyfeisiadau llaw'r Arolygwyr. Bydd hyn yn cyflymu proses yr archwiliadau ac yn golygu y bydd gwybodaeth am yr archwiliad yn cael ei chofnodi, a bydd y CPAMR yn diweddarau yn awtomatig.
- 4.8 Bydd swyddogion yr Adran Drafftig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd yn goruchwylio'r CPAMR.

## Rhaglen Fuddsoddi

- 4.9 Cynigir ein bod yn dechrau rhaglen fuddsoddi er mwyn cyfrannu at wella profiad defnyddwyr ein meysydd parcio. Bydd hyn yn cynnwys gwella edrychiad ein meysydd parcio, gwella'r arwyddion gwybodaeth sydd ynddynt, a buddsoddi mewn peiriannau talu ac arddangos fwy modern a fydd yn galluogi i ddefnyddwyr dalu â cherdyn. Mae drafft o'r Rhaglen Fuddsoddi yn Atodiad B.
- 4.10 Mae'r wybodaeth a gofnodwyd o archwiliadau o'r meysydd parcio, fel y nodir yn 4.3 uchod, wedi cael ei defnyddio i nodi gwaith y Rhaglen Fuddsoddi a'i flaenoriaethu.
- 4.11 Mae'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd wedi ymweld â'r chwe Grŵp Adran Aelod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2017 i drafod blaenoriaethau buddsoddi yn ein meysydd parcio. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi cael ei ddefnyddio i'n cynorthwyo i nodi gwaith y Rhaglen Fuddsoddi a'i flaenoriaethu.



- 4.12 Cynigir bod y buddsoddiad hwn yn cael ei ariannu'n llwyr o'n cyllideb meysydd parcio presennol. Mae hyn yn debygol o fod angen rhywfaint o fenthycha darbodus oherwydd lefel y Buddsoddiad angenrheidiol yn nwy flynedd gyntaf y rhaglen. Fodd bynnag, byddai'r ad-daliadau'r benthycha yn cael eu talu o gyllideb meysydd parcio. Mae angen datblygu'r proffil gwario a'r swm benthycha sydd eu hangen yn fanwl gyda swyddogion Cyllid. Cynigir y bydd hyn wedyn yn cael ei ddatblygu yn Achos Busnes a fydd wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol i'w gymeradwyo.
